# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Ionawr 2021

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod (09:00 - 09:30)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 44)

Dafydd Elis-Thomas AS, Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Jo Thomas, Uwch Reolwr Cynllunio Ariannol a Rheoli Cyllidebol

## Egwyl (10:30 - 10:45)

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

(10.45-11.45) (Tudalennau 45 - 73)

Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwyr, Is-adran y Gymraeg

Jeremy Evas, Pennaeth Prosiect 2050

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Papur(au) i'w nodi

**4.1 Gohebiaeth gan y Llywydd ynghylch effaith COVID ar newyddiaduraeth**

(Tudalennau 74 - 75)

**4.2 Gohebiaeth â BBC Cymru Wales ynghylch proses setliad ffi'r drwydded ac adolygiad Ofcom**

(Tudalennau 76 - 78)

**4.3 Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch cymorth i'r diwydiannau creadigol**

(Tudalennau 79 - 81)

**4.4 Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch cronfa grantiau gweithwyr llawrydd**

(Tudalennau 82 - 86)

**4.5 Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac addysg**

(Tudalennau 87 - 94)

**4.6 Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch yr adolygiad wedi'i deilwra o Lyfrgell Genedlaethol Cymru**

(Tudalennau 95 - 96)

**4.7 Gohebiaeth gyda Llywodraeth Cymru ynghylch penodiadau cyhoeddus**

(Tudalennau 97 - 100)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 6 Trafodaeth breifat

(11.45-12.00)

## 7 Cyflwyniad ynghylch canfyddiadau'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwiliad i bwy sy'n cael eu coffáu mewn mannau cyhoeddus.

(12:00-12:10)

Catherine McKeag, Rheolwr Ymgysylltu â Dinasyddion, Senedd Cymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – 14 Ionawr 2021

## Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

## Memorandwm ar gynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22

### 1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am fy nghynlluniau gwario fel Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yng nghyswllt y cyllidebau diwylliant a threftadaeth yn fy mhortffolio. Mae'r cynlluniau gwario'n cael eu gosod yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr. Mae'r papur hwn hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

Mae'r sectorau yn fy mhortffolio wedi wynebu heriau sylweddol eleni o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws. Bydd rhai o'r heriau hyn yn parhau'r flwyddyn nesaf wrth inni geisio cefnogi ein sectorau i oroesi ac i adfer. Er ein bod wedi canolbwyntio ar yr ymateb iechyd ac economaidd, rydym hefyd wedi mynd ati'n gadarn i sicrhau goroesiad ein diwylliant a'n treftadaeth, ein sefydliadau cenedlaethol a'r cymunedau sy'n eu diogelu a'u meithrin.

Gan gydnabod pwysigrwydd diwylliant a threftadaeth i wella iechyd a llesiant, yn enwedig fel rhan o'r adferiad ar ôl y pandemig, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ein buddsoddiad yn y meysydd hyn ac yn ceisio cynyddu ein buddsoddiad cyfalaf lle bynnag y bo modd.

Mae ein diwylliant a'n treftadaeth yn rhan annatod o hunaniaeth ein cenedl. Mae cerddoriaeth a llenyddiaeth Cymru a'n cestyll eiconig yn siapio ein hunaniaeth ac yn adrodd hanes Cymru i'r byd. Mae llyfrgelloedd, amgueddfeydd, archifau, safleoedd treftadaeth a lleoliadau celfyddyd ledled Cymru yn galluogi miloedd o bobl i fwynhau ac i ymwneud â'n diwylliant. Maent yn creu ymdeimlad unigryw o le yn ein cymunedau ac yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflawni'r uchelgeisiau ar gyfer y Gymraeg.  Mae miloedd o bobl wedi elwa o fynediad am ddim i'n hamgueddfeydd cenedlaethol.  Amgueddfa Cymru yw'r darparwr addysg mwyaf y tu allan i'r ystafell ddosbarth yng Nghymru – mae dros 180,000 o fyfyrwyr ysgol yn mwynhau gweithgareddau addysg bob blwyddyn. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn casglu ac yn gwarchod diwylliant a threftadaeth Cymru ac yn sicrhau eu bod ar gael i bawb er mwyn iddynt allu dysgu, ymchwilio a mwynhau ac mae'n croesawu tua 2 filiwn o ymwelwyr a defnyddwyr ar-lein.  Drwy Cadw, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd.  Bob blwyddyn, bydd dros 2.4 miliwn o bobl yn ymweld â'r 130 o henebion sydd dan ofal y wladwriaeth, ac mae Cadw hefyd yn cefnogi 35,500 o berchnogion a meddianwyr sy'n gofalu am adeiladau a safleoedd hanesyddol ar hyd a lled Cymru.

Yn ogystal â bod yn bwysig ynddo'i hun, mae ein diwylliant yn gwarchod ac yn gwella ansawdd ein bywyd.  Mae diwylliant yn creu swyddi mewn treftadaeth, adeiladu ac atgyweirio adeiladau traddodiadol, a'r celfyddydau. Mae ein hatyniadau diwylliannol yn helpu i gynnal yr 11,500 o fusnesau sydd yn y diwydiant twristiaeth, ac mae'r celfyddydau yng Nghymru yn sail i'n diwydiannau creadigol.  Mae ein diwylliant yn ganolog i frand Cymru a hyrwyddo Cymru'n rhyngwladol drwy'r Strategaeth Ryngwladol.

Mae ein diwydiannau creadigol yn hyrwyddo Cymru ym mhob cwr o'r byd. Mae datblygu sylfaen sgiliau gynaliadwy a datblygu doniau yn flaenoriaeth allweddol i Gymru Greadigol i sicrhau bod unigolion yn

gallu manteisio ar gyfleoedd, gwella llwybrau at yrfaoedd hyfyw a chefnogi rhagor o bobl i gael ac i gadw cyflogaeth yn y diwydiannau creadigol.

Rhaid i'n sefydliadau allweddol oroesi'r argyfwng hwn a rhaid inni gynllunio er mwyn i'n cymunedau a'n sectorau lleol allu dychwelyd yn gadarnhaol ac edrych tua'r dyfodol gyda gobaith. Mae Cadw a'r Is-adran Diwylliant a Chwaraeon yn cefnogi ein partneriaid cyflenwi – Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru – sydd rhyngddynt yn cyrraedd cynulleidfa enfawr yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Mae arnom hefyd eisiau sicrhau ein bod yn gallu diogelu'r sector yn wyneb heriau ymadael â'r UE ond gan ei gefnogi i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar yr un pryd. Y naill ffordd neu'r llall, mae'n bwysig bod y sector yn cael sylw yn y cyswllt hwn, nad yw'n agored i niwed a'i fod wedi'i arfogi i symud ymlaen ar ôl y pandemig ac ar ôl Brexit.

Er bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd gyda brechlynnau a'n bod nawr yn gobeithio y bydd rhyw fath o normalrwydd yn dychwelyd ymhen amser, mae llawer iawn o ansicrwydd o hyd a bydd angen i'n cynlluniau fod yn hyblyg 'u bod yn gallu esblygu mewn amgylchiadau sy'n datblygu'n gyflym. Er bod yr adferiad yn allweddol, mae arnom eisiau sicrhau ein bod yn cyflawni blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru fel newid hinsawdd, lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, a gwella sgiliau a rhagolygon swyddi. Bydd y rhain yn themâu pwysig wrth i'n cenedl gael ei chefn ati ar ôl effaith y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n hollol ffyddiog y gall diwylliant a threftadaeth helpu'r genedl i ymgodi'n gadarnhaol o'r cyfnod heriol hwn – mae hi'n hollbwysig cryfhau ein synnwyr o hunaniaeth, ein llesiant meddyliol a sicrhau adferiad economaidd y sectorau sy'n ychwanegu mwy o werth ac ystyr i fywydau pob un ohonom.

## 2.0 Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

Mae Cyllideb Ddrafft 2021-22 yn darparu cynllun gwariant blwyddyn ar gyfer refeniw a chyfalaf.  Mae **Atodiad A** yn cynnwys dadansoddiad manwl o wybodaeth ariannol treftadaeth a diwylliant 2019-20 i 2020-21 fesul Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb. Mae rhagor o fanylion am benderfyniadau ynghylch y gyllideb ar gael yn y diweddariadau ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

### 2.1 Cyllideb Adnoddau

Mae trosolwg o'r newidiadau i'r gyllideb adnoddau rhwng 2020-21 a 2021-22 yn cael ei grynhoi yn **Nhabl 1** fel a ganlyn:

**TABL 1: TROSOLWG O'R GYLLIDEB ADNODDAU (Gan gynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol)**

| Diwylliant a Threftadaeth | Ail Atodol 2019-20 £'000 | Addasiad Sylfaenol £'000 | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau | 121,566 | (50,257) | 71,309 | 1,012 | 72,321 |
| Cyfryngau a Chyhoeddi | 3,730 | 0 | 3,730 | 0 | 3,730 |
| Cymorth i'r Amgylchedd Hanesyddol | 15,036 | (267) | 14,769 | 1,000 | 15,769 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **140,332** | **(50,524)** | **89,808** | **2,012** | **91,820** |
| Pensiwn Cyrff a Noddir | 3,013 | | 3,013 | 10,987 | 14,000 |
| **Cyfanswm AME** | **3,013** | **0** | **3,013** | **10,987** | **14,000** |
| **CYFANSWM** | **143,345** | **(50,524)** | **92,821** | **12,999** | **105,820** |

**Addasiadau Sylfaenol**

At ei gilydd, mae'r addasiad o £50.524m yn adlewyrchu'r cymorth ychwanegol anghylchol ar gyfer yr adferiad mewn ymateb i'r pandemig, sef £51.5m ac wedi'i wrthbwyso gan £0.976m o ostyngiadau i gefnogi ymyriadau Covid-19.

Roedd y Gyllideb Atodol Gyntaf yn canolbwyntio ar ailgyfeirio cyllidebau presennol i ymateb i'r pandemig ar unwaith. Cafodd y cyfraniad o £0.976m ei wneud drwy dorri 2% oddi ar gyllid Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Comisiwn Brenhinol a oedd yn rhoi cyfanswm o £0.678m a chyllideb heb ei hymrwymo o £0.298m yn y BEL Diwylliant a Chwaraeon Lleol.

Roedd yr Ail Gyllideb Atodol yn cynnwys rhagor o fesurau a gymerwyd i ymateb i'r pandemig gan gynnwys £53m ar gyfer y Gronfa Adferiad Diwylliannol (CRF) i gefnogi ac i gynnal y sector oherwydd heriau parhaus a oedd yn cynnwys £50m o refeniw a £3m o gyfalaf. Ers hynny rydym wedi cynyddu ein buddsoddiad yn y Gronfa Adferiad Diwylliannol £10m i dros £63m.

Cyhoeddwyd £14m ychwanegol ar gyfer y Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden er mwyn darparu cynaliadwyedd tymor hirach i'r sector chwaraeon. Mae hyn yn cynnwys £1.5m ar gyfer darparwyr annibynnol a digwyddiadau chwaraeon a reolir o dan y BEL Diwylliant a Chwaraeon Lleol.

## 2.2 Newidiadau yn y Gyllideb

Yn 2021-22, mae cyllid ar gyfer y cyrff a noddir a sefydliadau partner yn cael ei gynnal er gwaethaf pwysau sylweddol a helaeth ar y Gyllideb sydd 3.6% yn is mewn termau real nag yn 2010-11. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyllid ychwanegol wedi cael ei ddyrannu ar gyfer pwysau Covid posibl. Mae lefelau incwm masnachol Cadw, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru yn annhebygol o godi i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Mae'r Gyllideb ddrafft yn cynnwys rhai buddsoddiadau wedi'u targedu yn unol â blaenoriaethau uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Bydd rhagor o benderfyniadau ariannol ar gyfer y sector treftadaeth a diwylliant yn cael eu hasesu wrth inni ddeall effaith y pandemig yn well, wrth inni ddynesu at y gwanwyn a'r haf ac wrth inni ddechrau gweld effaith cyflwyno brechlynnau. Rhaid cofio bod y swm a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru yng nghyswllt Covid 19 yn is o lawer na'r hyn a ddarparwyd yn 2020-21.

At ei gilydd mae'r newid o £2.012m yn adlewyrchu gofynion ychwanegol nad ydynt yn rhai arian parod ac ailalinio cyllidebau o fewn y portffolio a fydd yn cael eu gwrthbwyso gan ad-daliadau. Mae'r gyllideb adnoddau yn cynnwys £9.383m (£8.103m yn 2020-21) ar gyfer taliadau dibrisiant nad ydynt yn arian parod. Yn 2021-22, mae angen cyllideb ychwanegol heb fod yn arian parod o £1.280m ar gyfer datblygiadau mawr yng nghastell Caernarfon, castell Caerffili a Llys Tretŵr gan Cadw - £1m, a buddsoddiad digidol yn yr Amgueddfeydd Cenedlaethol - £0.280m. Mae'r gyllideb Cymorth i Chwaraeon sef £0.57m hefyd yn cael ei chyfuno yn y Cymorth ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon Lleol i gysoni blaenoriaethau cyflawni. Mae cyfanswm Ad-daliadau Buddsoddi i Arbed o £0.025m ar gyfer y cynllun effeithlonrwydd ynni yn Amgueddfa Cymru.

Ar ben hynny mae dyraniad o £0.6m ar gael yn y BEL Diwylliant a Chwaraeon Lleol i gefnogi ein sefydliadau diwylliannol i fwrw ymlaen â gwaith archwiliadol ar gyfer Black Lives Matter.

Ceir hefyd gynnydd o £14m yn y cyllidebau AME i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer unrhyw amrywiad mewn ffioedd pensiwn a allai fod yn angenrheidiol mewn perthynas â chynlluniau pensiwn ar gyfer Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Rhagolwg 2020-21**

Mae'r £150.422m o alldro refeniw yn rhagolwg cyffredinol 2020-21 yn **Atodiad A** yn adlewyrchu'r £10m o gyllid ychwanegol ar gyfer y Gronfa Adferiad Diwylliannol. Bydd hyn yn cael ei weithredu yn y Drydedd Gyllideb Atodol ochr yn ochr ag ailflaenoriaethu £7m o gyllid, yn bennaf i gefnogi gweithwyr llawrydd, o BEL Cyngor Celfyddydau Cymru a fydd yn cael ei reoli gydag ymyriadau yn y BEL Diwylliant a Chwaraeon Lleol. Mae Cyngor y Celfyddydau yn bartner gwerthfawr a chydag asesiad cyflym a chadarn, llwyddwyd i ddod o hyd i 222 o sefydliadau i gael cyllid ar unwaith, gan ddiogelu dros 1,800 o swyddi. Mae'r manylion llawn ar gael yn y Datganiad ysgrifenedig. Roedd y dyraniad o £10m yn cynnwys cymorth i'n sefydliadau cenedlaethol i fynd i'r afael ag effeithiau penodol y pandemig Covid: Llyfrgell Genedlaethol Cymru £0.25m; Amgueddfa Cymru £0.3m a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru £0.24m.

**Alldro Terfynol 2019-20**

Roedd ffigurau alldro terfynol 2019-20 yn weddol debyg i'r gyllideb gyda rhywfaint o ailflaenoriaethu yn y portffolio a'r MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Iaith Gymraeg ehangach.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol**

Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) o £14m yn cefnogi'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer unrhyw ffioedd pensiwn a allai fod yn angenrheidiol mewn perthynas â chynlluniau pensiwn ar gyfer Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

## 2.3 Cyllideb Cyfalaf

Mae trosolwg o'r newidiadau i'r gyllideb cyfalaf rhwng 2020-21 a 2021-22 yn cael ei grynhoi yn **Nhabl 2** fel a ganlyn:

**TABL 2: TROSOLWG O'R GYLLIDEB CYFALAF**

| Diwylliant a Threftadaeth | Ail Atodol 2019-20 £'000 | Addasiad Sylfaenol £'000 | Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau | 17,816 | (3,000) | 14,816 | 2,570 | 17,386 |
| Cyfryngau a Chyhoeddi | 780 | 0 | 780 | (750) | 30 |
| Cymorth i'r Amgylchedd Hanesyddol | 5,241 | 3,700 | 8,941 | 180 | 9,121 |
| **CYFANSWM** | **23,837** | **700** | **24,537** | **2,000** | **26,537** |

**Addasiadau Sylfaenol**:

Mae'r Ail Gyllideb Atodol yn cynnwys £3m o gyllid cyfalaf sydd wedi'i gynnwys yn y £53m ar gyfer y Gronfa Adferiad Diwylliannol i gefnogi ac i gynnal y sector o ganlyniad i'r heriau parhaus. Roedd effaith y pandemig wedi gohirio datblygiadau mawr yng nghastell Caerffili, Llys Tretŵr a chastell Caernarfon

felly cafodd £3.7m ei ddychwelyd i'r cronfeydd i gael eu hailflaenoriaethu. Mae'r symudiad net yn ostyngiad o £0.7m.

**Newidiadau yn y Gyllideb**

Yn 2021-22, mae buddsoddiad cyfalaf wedi cynyddu 8% o'i gymharu â 2020-21. Mae crynodeb o'r newidiadau yn **Nhabl 3** fel a ganlyn:

**TABL 3: NEWIDIADAU YN Y GYLLIDEB CYFALAF**

| Sefydliad | Dyraniad Prosiect 2020-21 £'000 | Dyraniad 2021-22 £'000 | Newid £'00 | Blaenoriaethau Buddsoddi |
|---|---|---|---|---|
| Amgueddfa Cymru | 350 | 1,000 | 650 | Datgarboneiddio a datblygiadau digidol<br>*2020-21 - System rheoli cysylltiadau cwsmeriaid* |
| Llyfrgell Genedlaethol | 400 | 500 | 100 | Datgarboneiddio a datblygiadau digidol<br>*2020-21 - gweinyddion a system TG* |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 400 | 1,220 | 820 | 2021-22 - Datblygu Theatr Clwyd<br>*2020-21 - Buddsoddi mewn prosiectau celfyddydol* |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 100 | 280 | 180 | Buddsoddi mewn bioamrywiaeth<br>*2020-21 - Cyllid effeithlonrwydd ynni* |
| Cymru Greadigol | 0 | 1,000 | 1,000 | Datblygiadau ar y gweill |
| Cyngor Llyfrau Cymru | 750 | 0 | (750) | *2020-21 - System weithredu TG a dosbarthu integredig newydd* |
| **CYFANSWM** | **2,000** | **4,000** | **2,000** | |

Mae buddsoddi yng nghynaliadwyedd hirdymor ein sefydliadau cenedlaethol yn dangos ein hymrwymiad i ddiogelu ein diwylliant a'n treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae datgarboneiddio yn flaenoriaeth i benderfyniadau'r gyllideb er mwyn cyflawni Cymru Carbon Isel a bydd yn golygu bod y sefydliadau'n gallu mynd i'r afael â phryderon amgylcheddol, yn enwedig allyriadau $CO_2$ ac effeithlonrwydd ynni.

Mae diwylliant yn rhan annatod o lesiant meddyliol. Yn ystod yr ynysu oherwydd y pandemig, fe wnaeth y sefydliadau addasu a hyrwyddo'r casgliadau'n ddigidol er mwyn i unigolion allu mwynhau diwylliant a threftadaeth gartref. Bydd y cyllidebau cyfalaf yn golygu bod modd buddsoddi rhagor mewn technoleg er mwyn adfer a chynnig mynediad ehangach.

Bydd y buddsoddiad cyfalaf o £4.197m yn Amgueddfa Cymru yn mynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw hanfodol y busnes ar gyfer y systemau gwresogi ac awyru er mwyn mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni. Bydd y buddsoddiad hefyd yn galluogi'r Amgueddfa i barhau i warchod trysorau'r genedl ac ymestyn y cynnig ar gyfer digideiddio o bell a manteisio ar y cyfleoedd a ganfuwyd yn ystod y pandemig. Bydd hefyd yn cefnogi'r paratoadau ar gyfer ailddatblygu amgueddfa lechi Llanberis.

Gan gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnal ein llyfrgell hanesyddol genedlaethol, rydym wedi cynyddu'r gyllideb gyfalaf i £3.195m a fydd yn targedu buddsoddiad i adnewyddu offer a chyfarpar sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, uwchraddio goleuadau, seilwaith TGCh a gosod paneli solar. Bydd yn golygu bod modd integreiddio'n well a bydd yn gwella'r cadernid i'r hirdymor. Bydd y gyllideb hefyd yn cefnogi'r rhaglen ddigideiddio at ddibenion sy'n amrywio o ymchwil ysgolheigaidd i therapi hel atgofion i bobl sydd â dementia.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn bartner allweddol o ran buddsoddi mewn diwylliant a'r celfyddydau. Cyfanswm y gyllideb yn 2021-22 yw £1.575m. Mae'r £1.22m ychwanegol yn 2021-22 (£1.8m yn 2020-21) yn rhan o'r gwaith cynllunio cychwynnol ar gyfer datblygu Theatr Clwyd. O'r £3m a drosglwyddwyd o MEG yr Economi a Thrafnidiaeth, a fydd yn cael ei weithredu yn y Drydedd Gyllideb Atodol, mae proffil y prosiect wedi cael ei newid a bydd yn cael ei reoli drwy gyflymu'r gwariant ar gyfer chwaraeon a diwylliant.

Mae cynyddu'r buddsoddiad yn y brand Cymru Greadigol cryf i £6.989m yn cefnogi'r strategaeth ryngwladol o ran codi proffil Cymru i'r byd, nid yn unig fel canolfan o ragoriaeth greadigol, ond fel lle gwych ar gyfer ymweld a byw. Mae buddsoddiad creadigol a diwylliannol yn hanfodol ar gyfer adfywio ledled Cymru ac mae'r cyllid yn cefnogi cynyrchiadau a mentrau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae lefel y buddsoddiad newydd o £0.375m yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn dangos yr ymrwymiad i hyrwyddo bioamrywiaeth, datblygu cynaliadwy, ymchwil a chadwraeth, a dysgu gydol oes.

### 2.4 Rhagolwg 2020-21

Alldro cyfalaf cyffredinol 2020-21 sef £26.337m o'i gymharu â £23.837m yn yr Ail Gyllideb Atodol yn **Atodiad A**, gan adlewyrchu'r gwariant ychwanegol ar Theatr Clwyd.

### 2.5 Alldro Terfynol 2019-20

Roedd ffigurau alldro terfynol 2019-20 yn weddol debyg i'r gyllideb gyda rhywfaint o ailflaenoriaethu yn y portffolio, yn bennaf ar gyfer buddsoddi yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru a'r MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Iaith Gymraeg ehangach.

### 2.6 Rhagolwg 2020-21

Mae'r alldro cyfalaf cyffredinol yn 2020-21 o £26.387m yn **Atodiad A** yn adlewyrchu'r £1.8m o gyllid ychwanegol ar gyfer ailddatblygu Theatr Clwyd (£1.22m arall yn 2021-22), cyflymu datblygiadau digidol gwerth £0.7m yn Amgueddfa Cymru ac addasiadau amrywiol. Bydd y newidiadau'n cael eu rhoi ar waith yn y Drydedd Gyllideb Atodol.

## 3.0 Ymateb i Wybodaeth Benodol y Gofynnwyd Amdani gan y Pwyllgor

### 3.1 Gwybodaeth am sut mae cyflawni'r portffolio Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth a'i ganlyniadau cysylltiedig yn cael ei fonitro a'i werthuso i ddangos gwerth am arian.

Nodir y blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob sefydliad partner yn eu llythyrau cylch gwaith. Maent yn defnyddio'r rhain fel sail ar gyfer eu cynlluniau gweithredol a'u dangosyddion perfformiad allweddol. Mae fy swyddogion yn monitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn mewn cyfarfodydd

monitro chwarterol a chyfarfodydd eraill, fel y cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn gyda Phrif Swyddogion Gweithredol ac mae presenoldeb swyddogion mewn cyfarfodydd y Bwrdd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gadw mewn cysylltiad agos drwy gydol y flwyddyn.

### 3.2 Manylion polisïau neu raglenni penodol o fewn y MEGs perthnasol (sy'n berthnasol i'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth) y bwriedir iddynt fod yn ataliol a sut caiff gwerth am arian a manteision cost rhaglenni o'r fath eu gwerthuso.

**Tlodi: Rhaglen Cyfuno**

Nod y rhaglen Cyfuno yw mynd i'r afael â materion tlodi a llesiant drwy weithgareddau diwylliannol. Mae wedi parhau i hybu ymgysylltiad â chymunedau gan gynnig atebion arloesol a phwrpasol i ymgysylltu ag unigolion a chymunedau, drwy ddefnyddio adnoddau digidol a darparu pecynnau o wybodaeth ddiwylliannol. Mae'r rhaglen yn parhau i gynnig achubiaeth ddiwylliannol i unigolion ac i gymunedau er mwyn gwella effeithiau tlodi, iechyd a llesiant.

Mae'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael ag anfantais ac atal tlodi. Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol (fel gwirfoddoli mewn amgueddfa neu chwarae cerddoriaeth) roi hwb i sgiliau, hunan-barch, dysgu a dyhead, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n wynebu anfantais economaidd.

Mae'r gyllideb yn cynnwys darpariaeth i barhau i gefnogi'r Rhaglen Cyfuno a'i gwaith o ymgysylltu ag unigolion a chymunedau mewn ardaloedd difreintiedig. Er gwaethaf yr anawsterau a gafwyd yn ystod y pandemig, mae'r rhaglen Cyfuno wedi bod yn ddyfeisgar o ran dod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu a hybu gweithgareddau diwylliannol. Cafodd llawer o arian ei ailgyfeirio o gyllideb Cyfuno yn 2020-21 er mwyn cefnogi'r ymdrech yn erbyn Covid. Cafodd Cyfuno £215k o refeniw a oedd £215k yn is na'r gyllideb gychwynnol y flwyddyn honno. Bydd cyllideb ddiwygiedig Cyfuno ar gyfer 2021-22 sef £430k yn cynnwys y bwriad i ehangu'r rhwydwaith cydlynwyr, gwerthusiad annibynnol a phrosiectau digidol fel rhan o'r ymrwymiad i adolygiad CWLC "minnau hefyd" o'r rhaglen Cyfuno.

**Iechyd meddwl**

Dros y genhedlaeth ddiwethaf, bu newid o fodel meddygol o iechyd i un sy'n cydnabod rôl a phwysigrwydd cymunedau ym maes iechyd. Mae'r portffolio'n cefnogi cymunedau iach, a llefydd iach drwy gyfleoedd i wirfoddoli ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, a hefyd drwy gefnogi cyfleusterau cymunedol lleol fel llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth.

Ceir tystiolaeth dda bellach i gefnogi effeithiau cadarnhaol cymryd rhan yn y celfyddydau ar iechyd meddwl. Roedd adolygiadau llenyddiaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru Celfyddydau a Diwylliant ym maes Cyfiawnder Troseddol a Llesiant yn nodi canlyniadau corfforol a seicolegol cadarnhaol i gleifion o ganlyniad i ymyriadau cerddoriaeth mewn amrywiaeth o leoliadau ysbyty.

Roedd ein hastudiaeth ddiweddar ein hunain ar y dirwedd celfyddydau ac iechyd yng Nghymru wedi dod o hyd i fwy na 200 o brosiectau ar hyd a lled y wlad sy'n effeithiol o ran atal salwch, helpu i gadw iechyd meddwl a chorfforol da a helpu pobl i wella. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi adnewyddu ei ymrwymiad i Gonffederasiwn GIG Cymru i godi ymwybyddiaeth o fanteision y celfyddydau i iechyd a llesiant pobl ac i wreiddio mentrau celfyddydau ac iechyd ar draws y GIG yng Nghymru. Roedd gwerthusiad 2018 o'r cynllun Bancio amser (mae Cadw yn cymryd rhan ynddo) yn dangos bod ansawdd bywyd cyffredinol wedi gwella i 83% o'r rheini a oedd wedi cymryd rhan ac roedd 52% yn teimlo'n llai ynysig ac unig.

**Casgliad y Werin Cymru**

Byddwn yn parhau i gefnogi rhaglen treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru. Mae’r rhaglen hon yn cael ei chyflwyno drwy bartneriaeth wedi’i ffedereiddio o dri chorff a noddir: Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae’r rhaglen yn annog, yn grymuso ac yn cefnogi unigolion a grwpiau cymunedol i greu ac i lwytho eu cynnwys digidol eu hunain i fyny i wefan Casgliad y Werin Cymru, ochr yn ochr â deunydd sy’n cael ei roi gan y prif bartneriaid a sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol eraill. Mae adolygiad deng mlynedd o’r rhaglen wedi cael ei gwblhau yn 2020, ac mae’r argymhellion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, gyda’r bwriad o sicrhau bod model, llwyfan ac allbynnau’r rhaglen yn addas i’r diben. Mae ein cyllideb i gefnogi’r gweithgarwch hwn yn 2021-22 yn £350k o gyllid refeniw ac yn £50k o gyllid cyfalaf.

**Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**

Byddwn yn cynnal £594k o gyllid refeniw ac yn cynyddu’r buddsoddiad cyfalaf £280k ar gyfer Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn 2021-22. Mae’r cyllid yn cefnogi cenhadaeth graidd yr ardd, sef ymchwil a chadwraeth bioamrywiaeth, cynaliadwyedd, dysgu gydol oes a mwynhad ei hymwelwyr.

Mae’r ardd yn dal i anelu at gyflawni sylfaen ariannol a masnachol gref gydag incwm gan ymwelwyr, gweithgareddau corfforaethol a chodi arian a mentrau masnachol newydd i hwyluso’r gwaith o gyflawni ei chenhadaeth.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cefnogi amrywiaeth eang o fentrau, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi a lleoliadau ar gyfer y rheini sydd mewn addysg bellach ac uwch, darparu gweithgareddau therapiwtig ac adsefydlu sy’n gysylltiedig â garddwriaeth a natur drwy weithio gyda byrddau iechyd lleol, a gweithgareddau cadwraeth ac ymchwil i gynnal ac i wella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach a gweithredol.

**3.3 Gwybodaeth am ddyraniadau (a’u lleoliad) yn eich portffolio i ddarparu ar gyfer deddfwriaeth a allai effeithio ar y flwyddyn ariannol 2021-22 fel sy’n berthnasol i’r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth.**

Ar hyn o bryd, nid oes deddfwriaeth newydd sy’n galw am ddarpariaeth yn y gyllideb yn 2021-22.

**3.4 Goblygiadau oherwydd bod y DU yn ymadael â’r UE ar y portffolio Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth a sut bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli unrhyw effaith a ragwelir.**

Mae’r portffolio wedi elwa’n fawr dros y blynyddoedd o ganlyniad i gyllid yr UE ar gyfer rhai prosiectau. Ar gyfer Cadw, dim ond ychydig o gyllid sydd wedi’i sicrhau mewn blynyddoedd diweddar iawn; ond yn fwy cyffredinol, disgwylir eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch i ba raddau y bydd y llinellau sylfaenol yn cael eu cynyddu i ddisodli cyllid yr UE, a sut bydd y trefniadau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gweithio.

Ym mis Rhagfyr cyhoeddodd Llywodraeth y DU na fyddai’r hyn a fyddai’n disodli’r rhaglen Ewrop Greadigol yn elwa o gyllid uniongyrchol fel rhan o’r adolygiad cynhwysfawr o wariant. Nid yw'r elfen Diwylliant wedi cael ei chefnogi’n uniongyrchol, fodd bynnag mae’r elfen ffilm a sgrin greadigol wedi cael ei chefnogi. Mae cyfleoedd yn dal ar gael i ddefnyddio cronfa gyfyngedig iawn drwy’r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu cynigion Llywodraeth y DU yn gryf ar gyfer mudo yn y dyfodol. Yn ystod pandemig COVID-19 a'r argyfwng economaidd a ddaeth i'r amlwg, taflwyd goleuni ar y ddibyniaeth ar weithwyr sy'n dod yn wreiddiol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ar gyfer gwasanaethau rheng flaen hanfodol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi datgan yn glir nad yw'n bwriadu newid amseriad na chynnwys ei system yn y dyfodol o ganlyniad i'r tarfu a achosir gan COVID-19. Roedd Llywodraeth Cymru yn teimlo ei bod yn rhwym yn yr amgylchiadau hyn i ymgysylltu â datblygu Rhestr Galwedigaethau â Phrinder Gweithwyr Cymru (SOL) er mwyn adlewyrchu, hyd eithaf ein gallu ar hyn o bryd, y gofynion sgiliau sydd yn economi Cymru ar hyn o bryd. Gan nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth y DU i gynnwys dim ond gwaith NQF lefel 3 neu uwch fel gwaith 'medrus', mae ein hystyriaeth ni hefyd yn cynnwys bylchau sgiliau o dan y trothwy hwn.

### 3.5 Pa asesiad mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal o effaith ariannol y pandemig ar feysydd yn y portffolio Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth (o ran costau uwch ac incwm is) a sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb.

Mae cyllidebau refeniw wedi cael eu cynnal ar gyfer 2021-22. Er bod yr effeithiau niweidiol yn debygol o barhau o ganlyniad i'r pandemig, ni ellir mesur yr effaith ariannol yn gywir. Felly nid oes dyraniadau ychwanegol yn y Gyllideb ddrafft, ond mae'r sefyllfa hon yn cael ei monitro'n ofalus a bydd asesiad yn cael ei gynnal o'r sectorau treftadaeth a diwylliant er mwyn ystyried rhagor o gyllid ar draws portffolios wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Mae'r pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar lefelau incwm masnachol Cadw yn 2020-21. Mae disgwyl y bydd yr effaith yn parhau yn 2021-22. Er y dylai darparu brechlynnau helpu, mae'n dal yn debygol y bydd effaith sylweddol ar y sefyllfa gyffredinol o ran incwm masnachol ar gyfer y flwyddyn gan fod cyfran fawr o'r incwm yn cael ei chynhyrchu yn ystod y gwanwyn a'r haf, cyn i'r rhaglen frechu gael effaith lawn. Bydd Cadw yn parhau i ymdrechu i gynyddu ei lefelau incwm masnachol, yng nghyd-destun y cyfyngiadau hyn. Yn yr un modd, bu effaith ddifrifol ar y sector treftadaeth drwyddo draw eleni. Darparwyd rhywfaint o gymorth yn 2020-21 drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn ogystal â'r cynllun ffyrlo, ond hyd yn oed i'r sefydliadau hynny sy'n goroesi, bydd yr adferiad yn anodd ac yn cymryd amser.

Mae ystadegau swyddogol yn dangos maint gwerth economaidd a rôl bwysig y sectorau diwylliannol a chelfyddydol yng Nghymru. Mae'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd cyn pandemig Covid-19 yn dangos bod Gwerth Ychwanegol Gros y diwydiannau creadigol a'r sectorau diwylliannol yng Nghymru yn £1.5bn[1] (£1,018m a £493m, yn y drefn honno). Ar ben hynny, mae'r sectorau hyn yn cyflogi tua 85,000 o bobl yng Nghymru, ac mae 38,000 ohonynt (45%) yn hunangyflogedig[2], ac mewn perygl ychwanegol o ganlyniad i effeithiau economaidd negyddol y feirws. Mae'r sectorau hyn yn cynnwys canran uwch o weithwyr hunangyflogedig wrth gymharu â nifer y bobl hunangyflogedig yng ngweithlu'r DU drwyddo draw (15.1%)[3]. Ar ben hynny, mae oddeutu 8,000 o fusnesau wedi cofrestru ar gyfer TAW yng Nghymru sy'n gweithredu yn y sectorau hyn[4].

Mae tystiolaeth yn dechrau datgelu graddfa effeithiau negyddol posibl y pandemig. Rydym yn gwybod bod y dirywiad hwn mewn cyflogaeth yn effeithio'n wael iawn ar y rheini sy'n gweithio yn y sectorau diwylliant a chelfyddydau'n benodol. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnal arolwg o fusnesau yn y DU i ddeall effaith COVID-19 ar sectorau[5]. Mae ymatebion gan 361 o fusnesau

---

[1] Amcangyfrifon Economaidd Sectorau DCMS 2018: Gwerth ychwanegol gros rhanbarthol
[2] Amcangyfrifon Economaidd Sectorau DCMS 2019: Cyflogaeth
[3] Tueddiadau mewn hunangyflogaeth yn y DU: Dadansoddi nodweddion, incwm a chyfoeth pobl hunangyflogedig.
[4] Amcangyfrifon Economaidd Sectorau DCMS 2018: Demograffeg Busnesau
[5] Canlyniadau Arolwg Effaith COVID-19 ar Fusnesau (BICS)

celfyddydau, adloniant a hamdden wedi'u cynnwys mewn ton ddiweddar (19/10/2020 – 01/11/2020). O'r busnesau hynny yn y sector hwn a holwyd, dywedodd 31% fod yr elw wedi gostwng dros 50% yn ystod y pythefnos diwethaf, a dywedodd 17% fod gostyngiad o rhwng 20% a 50%. Dywedodd 40% o fusnesau yn y sector hwn eu bod yn hyderus iawn y byddai eu busnes yn goroesi dros y tri mis nesaf, a oedd 10% yn uwch na thon flaenorol yr arolwg. Fodd bynnag, dywedodd 10% o fusnesau nad oedd ganddynt lawer o hyder neu ddim hyder o gwbl y byddai eu busnes yn goroesi'r 3 mis nesaf. Dywedodd busnesau yn y sectorau hyn fod 33.6% o'r staff ar ffyrlo rhannol neu lawn – mae'r ffigur hwn yn uwch na'r 14 dosbarthiad diwydiant arall.

Mae ymchwil a gynhaliwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd[6] yn nodi bod y 'sgytwad diwylliant' hwn wedi effeithio ar y diwydiannau diwylliannol a chreadigol ym mhedwar ban byd. Maen nhw'n dweud mai sectorau sy'n seiliedig ar leoliadau (amgueddfeydd, celfyddydau perfformio ac ati) yw'r rhai sy'n cael eu taro galetaf gan fesurau cadw pellter cymdeithasol a bod gostyngiad sydyn mewn refeniw wedi arwain at lai o enillion cyflogau a dileu swyddi yn y sector, sydd wedyn yn effeithio ar gadwyn gwerth cyflenwyr. Heb gymorth ymatebol cyhoeddus a strategaethau adfer, bydd lleihau'r sectorau diwylliannol a chreadigol yn effeithio'n negyddol ar ddinasoedd a rhanbarthau o ran swyddi a refeniw, lefelau arloesi, llesiant dinasyddion a pha mor fywiog ac amrywiol yw cymunedau.

Fodd bynnag, nid dim ond colled economaidd fydd hon. Gwelir gwerth llawn y sectorau diwylliant a chelfyddydau drwy eu heffeithiau ehangach. Mae gweithgareddau'r sectorau hyn yn gwneud cyfraniadau pwysig a thrawsbynciol at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er enghraifft, rydym yn gwybod bod gweithgareddau diwylliannol yn chwarae rhan wrth ragweld a fydd rhywun yn dweud a yw eu llesiant yn dda ai peidio, gan fod y rheini sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol 23% yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn fodlon iawn ar fywyd[7]. Mae sefydliadau a chyrff diwylliannol hefyd yn helpu i adeiladu cyfalaf cymdeithasol a chefnogi gwirfoddolwyr[8], gweithredu fel hybiau addysg a darparu sesiynau dysgu ffurfiol[9], a chefnogi'r system cyfiawnder troseddol[10].

### 3.6 Manylion lle'r oedd cyllid wedi'i ddyrannu'n flaenorol i'r portffolios Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth ond sydd wedi cael eu ailflaenoriaethu oherwydd cyfyngiadau ar weithgarwch oherwydd y pandemig.

Mae hwn wedi bod yn gyfnod arbennig o anodd i'r rheini sy'n gweithio yn y sector diwylliant a threftadaeth. Mae gan Lywodraeth Cymru Gronfa Adferiad Diwylliannol gwerth £63m sy'n cael ei rheoli yn 2020-21. Mae hon yn sefyllfa sy'n datblygu ac mae'r amserlenni ar gyfer adfer yn aneglur ac yn ansicr. Rydym yn bwriadu darparu cyllid ychwanegol ar gyfer adfer yn 2021-22 ond ar y cam cynnar hwn nid ydym wedi penderfynu ar y raddfa na'r dull gweithredu.

### Meysydd penodol

**Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol a Gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol**

### 3.7 Dyraniadau a sylwadau ynghylch gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol.

[6] Culture Shock: COVID-19 and the cultural and creative sectors
[7] Archwilio'r berthynas rhwng diwylliant a llesiant
[8] A review of the Social Impacts of Culture and Sport
[9] Spotlite ar Amgueddfeydd 2016: Adroddiad i'r Is-Adran Amgueddfeydd,

Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru
[10] Arts and culture in health and wellbeing and in the criminal justice system: A summary of evidence

Roedd gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 i fod i bara pum mlynedd rhwng 2016 a 2021. Bydd gwariant wedi'i gyllidebu ar gyfer ei gweithredu felly'n dod i ben yn 2020-21. Er y bydd rhywfaint o gostau blynyddol yn dal yn gysylltiedig â'r Ddeddf, byddwn wedi symud o'n cam gweithredu arfaethedig a bydd unrhyw gostau'n cael eu cyfrif fel gwariant arferol o gyllidebau arferol Cadw.

**Cadw**

### 3.8 Dyraniadau a sylwadau yng nghyswllt Cadw gan gynnwys targedau cynhyrchu refeniw, a ffigurau cynhyrchu incwm blynyddol diweddar.

Mae'r incwm wedi cynyddu'n sylweddol iawn ers 2013-14 pan roedd yn £4.8m. Mae hyn wedi deillio o nifer o gynlluniau i ddenu rhagor o ymwelwyr i safleoedd, gan gynnwys buddsoddi yn y cyfleusterau, ynghyd â chynnydd mewn prisiau. Y ffigur incwm terfynol ar gyfer 2019-20 oedd £8.0m – record i Cadw. Cyn y pandemig, a oedd yn ein gorfodi i gau safleoedd ar 17 Mawrth, roeddem ar y trywydd iawn i ragori ar y ffigur incwm a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn a sicrhau ffigur o oddeutu £8.2m.

Roedd cyllideb incwm 2020-21 yn £8.5m. Fodd bynnag, mae'n anochel bod y pandemig wedi cael effaith enfawr, gyda safleoedd naill ai ar gau, neu ar agor ond gyda niferoedd cyfyngedig o ymwelwyr o ganlyniad i'r angen i gadw pellter cymdeithasol, a hefyd oherwydd cyfyngiadau symud a chyfyngiadau teithio lleol. Mae'r rhagolwg diweddaraf yn £1.4m, ac mae cyflawni hyd yn oed y ffigur hwn yn dibynnu ar allu agor safleoedd ym mis Chwefror a mis Mawrth yn benodol, wrth i nifer yr ymwelwyr gynyddu fel arfer.

Bydd prisiau'n cael eu cadw ar lefelau 2020-21 yn 2021-22. Fodd bynnag, un agwedd gadarnhaol yw bod nifer yr aelodau wedi cynyddu ychydig. Roedd disgownt yn cael ei gynnig i aelodau o ganlyniad i'r pandemig, ac mae'r nifer sydd wedi adnewyddu eu haelodaeth wedi aros yn weddol sefydlog, ac mae aelodau newydd wedi ymuno. Dylai hyn helpu lefelau incwm yn y dyfodol, ar yr amod bod aelodau'n adnewyddu ar y gyfradd lawn, wrth inni ddod drwy effeithiau'r pandemig.

Dyrannwyd cyfalaf ychwanegol o £10.1m i Cadw yn ystod 2018-19 i 2021-22 er mwyn buddsoddi mewn safleoedd i ddatblygu profiad yr ymwelwyr a chynyddu lefelau incwm yn y dyfodol. Mae cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer datblygu'r cestyll yng Nghaerffili a Chaernarfon bellach yn cael eu rhoi ar waith.

Yn fwy cyffredinol, mae Cadw yn gweithio dros amgylchedd hanesyddol hygyrch sydd wedi'i warchod yn dda i Gymru. Mae'n gofalu am 130 o henebion ledled Cymru ac yn darparu mynediad i'r cyhoedd at yr henebion hynny. Mae 29 o'r rhain yn safleoedd sydd â staff ac mae'r gweddill yn safleoedd mynediad agored am ddim. Mae gwariant cyfalaf ar gadwraeth henebion hefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig.

### 3.9 Dyraniadau tuag at gyllid ar gyfer perchnogion asedau hanesyddol

Mae dros 30,000 o adeiladau rhestredig a 4,200 o henebion cofrestredig yng Nghymru, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn eiddo preifat. Mae'r rhan fwyaf o'r perchnogion hynny'n gofalu'n gydwybodol am eu heiddo, sy'n etifeddiaeth werthfawr i genedlaethau heddiw ac yfory.

Mae Cadw wedi cyhoeddi ystod eang o ganllawiau a chyfeiriadau ynghylch y cyllid grant sydd ar gael ac mae modd eu llwytho i lawr am ddim o wefan Cadw. Mae fy swyddogion Cadw bob amser yn fodlon rhoi cyngor ar ymholiadau cyffredinol sy'n ymwneud ag asedau hanesyddol, ond cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio lleol yw ymholiadau penodol sy'n ymwneud â rheoli adeiladau

rhestredig.  Fodd bynnag, os bydd gwaith arfaethedig neu faterion eraill yn codi cwestiynau anodd, mae fy swyddogion yn fodlon cynnig cyngor mewn trafodaethau cyn ymgeisio sy'n cynnwys pob parti.

Nid yw rhestru adeilad neu restru heneb yn rhoi unrhyw hawl i gael cymorth grant.  Yn yr un modd â gydag unrhyw adeilad, y perchennog sy'n gyfrifol am ei gynnal a'i gadw.  Fodd bynnag, mae gan Cadw gynlluniau grant sy'n seiliedig ar amcanion craidd ein strategaeth genedlaethol – *Ffyniant i Bawb*.  Bydd penderfyniadau ynghylch gwerth am arian yn cael eu gwneud ynghylch amcangyfrifon wedi'u costio a gyflwynir gan yr ymgeisydd ac a fydd yn cael eu hasesu gan Arolygwyr Cadw.

Mae Cadw yn cynnig y cynlluniau grant cyfalaf canlynol:

- **Grantiau Adeiladau Rhestredig**

  Ar hyn o bryd mae Cadw yn blaenoriaethu grantiau ar gyfer atgyweirio ac adfer asedau cymunedol hanesyddol rhestredig fel neuaddau pentref a chymunedol, sefydliadau, llyfrgelloedd a mannau addoli hanesyddol sy'n agored i'w defnyddio'n ehangach yn y gymuned. Fel rheol bydd adeiladau cymwys yn cynnwys asedau cymunedol rhestredig sydd mewn perygl, cynlluniau sy'n cynnig mynediad gwell i'r cyhoedd a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau a hyfforddi, a chynlluniau sy'n darparu manteision i gymunedau neu sy'n ysgogi cyfleoedd adfywio.

  Fel arfer, ni fydd eiddo preswyl sy'n eiddo preifat yn gymwys, gan eu bod yn tueddu i beidio â darparu'r manteision ehangaf posibl fel y nodir yn y strategaeth genedlaethol.

- **Grantiau Henebion Hynafol**
  Mae henebion hynafol yn gallu amrywio o siambrau claddu Neolithig i adeiladau'r chwyldro diwydiannol.  Mae nifer yn agored i niwed ac rydym yn cydnabod y gallai'r gwaith atgyweirio fod yn ddrud neu efallai nad yw bob amser er budd ariannol perchennog yr heneb.

  Byddwn yn ystyried ceisiadau grant am waith cadwraeth, cynnal a chadw a rheoli henebion hynafol.  Ystyrir mynediad i'r cyhoedd a dehongli henebion hefyd.  Bydd yr union waith yn amrywio gan ddibynnu ar a yw'r heneb yn olion castell cerrig neu'n heneb maes, fel gwrthglawdd cynhanes.

  Bydd ceisiadau am grantiau yn cael eu hasesu yn ôl meini prawf, gan gynnwys pa mor angenrheidiol a brys yw'r gwaith, pa mor briodol yw'r cynigion, hyd a lled yr effaith ddisgwyliedig, gwerth arian cyfatebol a lefel y manteision i'r gymuned.  Mae manteision ehangach i'r gymuned mae modd eu cyflawni drwy brosiectau cadwraeth yn cynnwys darparu dehongliad, cynnal diwrnodau agored neu gymryd rhan mewn digwyddiadau drysau agored, darparu cyfleoedd hyfforddiant a chynnwys gwirfoddolwyr.  Byddem hefyd yn disgwyl bod mynediad rhesymol i'r cyhoedd yn cael ei gynnig i'r safle.

  Yn 2020-21, rhagwelir y bydd y gwariant cyfalaf ar y rhaglenni grant hyn yn £0.7m. Mae'r gyllideb ar gyfer 2021-22 yn cael ei chynyddu i £1.1m

**<u>Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru</u>**

**3.10 Dyraniadau a sylwadau ynghylch Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan gynnwys unrhyw dargedau cynhyrchu refeniw.**

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru ill dwy yn sefydliadau diwylliannol uchel

eu proffil. Mae'r naill a'r llall yn mynd ati'n rhagweithiol i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth a chynnwys pobl Cymru mewn gweithgareddau diwylliannol ac maent yn gwneud gwaith pwysig hefyd drwy hyrwyddo diwylliant Cymru yn rhyngwladol.

Rydym wedi gallu cynnal cyllidebau refeniw'r ddau sefydliad cenedlaethol hyn yn 2021-22. Mae'r naill sefydliad a'r llall yn cydnabod bod dewisiadau cyllido'n gyfyngedig i Lywodraeth Cymru wrth iddi orfod rheoli pandemig Covid-19 ynghyd â chaledi parhaus.

Cyhoeddwyd canfyddiadau'r Adolygiad Pwrpasol o Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod yr wythnosau diwethaf, a byddwn yn gweithio gyda'r Llyfrgell i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol.

Targed cynhyrchu incwm blynyddol masnachol y Llyfrgell Genedlaethol yw £0.7m a tharged gros yr Amgueddfa yw £5.5m, gyda tharged net o £1.3m.  Mae'r Llyfrgell yn llwyddo i ddenu llawer o roddion elusennol a chymynroddion, ond mae'r targed i gynhyrchu incwm masnachol yn fwy heriol, gyda llai o ddewisiadau ar y safle i gynhyrchu refeniw wrth gymharu â'r Amgueddfa gyda'i siopau a'i chaffis ar draws saith safle.

Mae cynnig mynediad am ddim i safleoedd Amgueddfa Cymru yn dal yn ymrwymiad. Mae hwn yn bolisi pwysig o ran chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl o gefndiroedd difreintiedig a/neu bobl ar incwm isel rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.  Mae hefyd yn annog pobl i ymweld eto ac yn annog cymunedau i ddefnyddio safleoedd a chyfleusterau Amgueddfa Cymru.

Bydd cyfanswm y cyllid cyfalaf sef £7.392m yn 2021-22 yn cefnogi datgarboneiddio a blaenoriaethau digidol ac yn helpu i fynd i'r afael â heriau gweithredu mewn adeiladau hanesyddol, yr angen i gadw ein casgliadau cenedlaethol yn ddiogel, a'r gofyniad i ddarparu mynediad parhaus a diogel i'r cyhoedd tra bydd gwaith cynnal a chadw yn parhau.  Mae'n rhaid i Amgueddfa Cymru reoli'r heriau hyn ar draws saith safle gwahanol.  Mae cyllid cyfalaf cynnal a chadw'n golygu mwy na dim ond datrys problemau sydd eisoes yn bodoli – er bod ôl-groniad o waith cynnal a chadw cyfalaf ar hyn o bryd. Mae'n golygu cefnogi ffrydiau gwaith a fydd yn gwella'r profiad i ymwelwyr ac yn cynyddu gallu'r cyrff i gynhyrchu refeniw ychwanegol o'r mannau cyhoeddus sydd wedi cael eu hadnewyddu a'u huwchraddio.

Mae gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru rôl genedlaethol flaenllaw o ran datblygu gwerthfawrogiad o amgylchedd archaeolegol, adeiledig a morol Cymru. Mae'r Comisiwn yn gofalu am gasgliad enfawr ac unigryw o ffotograffau, mapiau, delweddau, cyhoeddiadau ac adroddiadau. Mae hyn yn cael ei wneud gan dîm o staff arbenigol a darperir cynnwys, gwasanaethau ac adnoddau digidol o ansawdd uchel sydd ar gael yn rhwydd i gynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym yn cynnal cyfanswm ei gyllideb sef £1.799m yn 2021-22.

Mae'r tri sefydliad hyn yn rhan o Bartneriaeth Cymru Hanesyddol. O ystyried y pwysau eithriadol ar ein cyllideb refeniw, bydd angen hyd yn oed rhagor o gydweithio yn 2021/22 rhwng yr holl gyrff ym mhartneriaeth Cymru Hanesyddol i archwilio pa arbedion effeithlonrwydd y gellir eu sicrhau drwy gydweithio effeithiol: drwy bartneriaethau masnachol a phosibilrwydd rhannu swyddogaethau rheoli cefn swyddfa.

**Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau**

**3.11 Dyraniadau a sylwadau ynghylch y Strategaethau Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau.**

Bydd cyfanswm y cyllid sef £3.467m yn y BEL Diwylliant a Chwaraeon Lleol yn 2021-22 yn cefnogi llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau i gyflawni ein blaenoriaethau gan ganolbwyntio'n benodol ar ehangu cyfranogiad, gwella iechyd a llesiant, mynd i'r afael ag unigrwydd a rhoi hwb i sgiliau i'r rheini sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig – gan gyfrannu at gyflogadwyedd, ymgysylltu â phobl ifanc a'u grymuso, a chefnogi'r blynyddoedd cynnar drwy ddysgu fel teulu a mentrau llythrennedd a darllen wedi'u targedu.

Byddwn yn parhau i gefnogi ein gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol i ddarparu ar gyfer eu cymunedau lleol gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu adnoddau digidol i ehangu mynediad i'r rheini nad ydynt yn gallu ymweld. Mae Covid-19 wedi dangos bod angen gwasanaethau digidol gwell a dull mwy cadarn o allu parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid pan nad yw'n bosibl i bobl ymweld yn gorfforol â gwahanol sefydliadau. Mae hyn yn golygu llawer mwy na pharhau i ymgysylltu drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol a oedd yn cael ei wneud yn weddol lwyddiannus – mae'n ymwneud â thrawsnewid sut gellid cynnig gwasanaethau a digwyddiadau'n gyffredinol, ac mae'n ymwneud ag ystyried a allai'r math hwn o drawsnewid digidol ymestyn cyrhaeddiad ein sefydliadau diwylliant a threftadaeth yn sylweddol ac o bosibl darparu ffrydiau incwm ychwanegol maes o law. Mae cymorth ariannol ychwanegol sydd eisoes wedi'i ddosbarthu i'r sector eisoes yn gwneud gwahaniaeth a bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth y flwyddyn nesaf.

Drwy fabwysiadu dull integredig ar draws y ddarpariaeth genedlaethol a lleol, byddwn hefyd yn cynyddu'r manteision mae pobl yn eu cael o gasgliadau a gwasanaethau. Mae'n hanfodol bod y sector yn cael ei gefnogi yn ei waith a hybu datblygu gweithio mewn ffordd sy'n fwy strategol yng nghyswllt gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol ledled Cymru. Mae angen inni hybu gweithio mewn partneriaeth i ddefnyddio buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y ffordd orau.

**Amgueddfeydd**

Mae staff proffesiynol a gwirfoddolwyr ymroddedig mewn amgueddfeydd ledled Cymru yn gofalu am filoedd o wrthrychau sy'n adrodd straeon pobl a chymunedau lleol. Maent yn darparu llawer iawn o gyfleoedd addysgol y tu allan i ysgolion. Mae'r pandemig wedi golygu bod gwasanaethau addysg ac allgymorth wedi symud ar-lein ac mae angen cyllid ar amgueddfeydd i ddatblygu ac i atgyfnerthu'r newid i ddarpariaeth ddigidol. Mae angen cymorth ar amgueddfeydd ledled Cymru i sicrhau bod eu harddangosfeydd a'u casgliadau'n cynrychioli cymunedau amrywiol – yn enwedig mewn ymateb i ymgyrch Black Lives Matter. Byddwn yn parhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth hanfodol i'r sector lleol ac yn rheoli cynllun y DU ar gyfer Achredu Amgueddfeydd.

**Archifau**

Mae archifau'n parhau i fod yn adnodd hanfodol ar gyfer deall ein hanes cenedlaethol, cymunedol a phersonol. Byddwn yn parhau i gefnogi Safon Achredu Archifau'r DU yng Nghymru, ac yn sicrhau bod ein gwasanaethau archifau lleol yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel ceidwaid ein cofnod cenedlaethol. Bydd cyllid hefyd yn cefnogi'r sector i fynd i'r afael â'r her hollbwysig o reoli'r symudiad tuag at gadw cofnodion digidol a mynediad at yr adnoddau digidol hyn.

**Llyfrgelloedd**

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau ar gyfer cymunedau, teuluoedd ac unigolion, a gyda 1.3 miliwn o aelodau llyfrgell, maent yn cyrraedd bron i 50% o'r boblogaeth[11]. Mae llyfrgelloedd yn ymgysylltu â phartneriaid i gefnogi cynhwysiant digidol, sgiliau, darllen a dysgu yn y blynyddoedd cynnar, iechyd a llesiant, a chynhwysiant cymdeithasol - yn

[11] Adroddiadau blynyddol y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus 2019 i 2020

enwedig ar gyfer pobl hŷn; yn ogystal â darparu mynediad at ddiwylliant, gwybodaeth a thechnoleg. Byddwn yn parhau i gefnogi rôl hollbwysig llyfrgelloedd o ran cefnogi iechyd a llesiant cymunedau ledled Cymru. Llyfrgelloedd yw'r mannau delfrydol yng nghalon y gymuned i ddarparu cymorth i bobl sy'n dioddef o ddementia a'u gofalwyr. Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn parhau i ddatblygu adnoddau hel atgofion ar gyfer y rheini sy'n dioddef o ddementia. Mae parhau i ddatblygu llyfrgelloedd sy'n Deall Dementia yn gwella cynhwysiant ac ansawdd bywyd pobl â dementia a'u gofalwyr.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn adnoddau llyfrgell digidol flwyddyn nesaf a bydd £200,000 o gyllid yn cael ei sianelu drwy Lyfrgell Genedlaethol Cymru i gyflawni'r Gwasanaeth Llyfrgell Ddigidol Cenedlaethol sydd ar gael i ddefnyddwyr llyfrgelloedd Cymru drwy borth llyfrgelloedd Cymru a drwy wasanaethau llyfrgelloedd unigol Cymru. Mae hyn yn hanfodol wrth ystyried bod llyfrgelloedd wedi gweld cynnydd dramatig yn nifer yr unigolion sy'n defnyddio adnoddau digidol, yn enwedig ers Covid-19. Mae Bolinda, un o'r prif ddarparwyr e-lyfrau ac e-lyfrau sain yng Nghymru drwy ei wasanaeth Borrowbox, wedi dweud bod nifer y benthyciadau rhwng mis Ebrill a mis Awst 2019 yn 186,002 a bod y ffigur hwn wedi codi i 394,089 ar gyfer yr un cyfnod yn 2020, a oedd yn golygu bod nifer y benthyciadau wedi codi 112%.

Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid i gyflawni ein gofynion statudol mewn perthynas â llyfrgelloedd, gan gynnwys monitro darparu gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod gwasanaeth 'cynhwysfawr ac effeithlon' yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964.

**Buddsoddiad cyfalaf**

Mae angen amlwg i gynnal ein buddsoddiad cyfalaf y flwyddyn nesaf ar draws y sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol. Mae ein rhaglen Grantiau Trawsnewid Cyfalaf yn agored i'r sector lleol ac yn darparu dros £1.4m o gyllid cyfalaf bob blwyddyn. Roeddem wedi dyfarnu dros £1.2m o grantiau i ddeg amgueddfa a llyfrgell ledled Cymru yn 2020-21 fel rhan o'r gronfa hon ac mae galw ychwanegol am gymorth y flwyddyn nesaf.

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

### 3.12 Dyraniadau a sylwadau yng nghyswllt Cyngor Celfyddydau Cymru.

Gan weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, byddwn yn parhau i gefnogi ac i hyrwyddo cyfraniad pwysig y celfyddydau i Gymru, meithrin amgylchedd lle mae'r celfyddydau'n gallu ffynnu – amgylchedd sy'n nodi ac yn meithrin doniau creadigol, ble bynnag y bônt yng Nghymru, i'w lawn botensial. Mae blaenoriaethau penodol ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys Hyrwyddo Cydraddoldeb fel sail i ymrwymiad clir i ymestyn yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru a chryfhau gallu a chadernid y sector, gan alluogi doniau creadigol i ffynnu. Mae cyllid refeniw o £32.042m wedi'i ddiogelu yn 2021-22. Mae'r dyraniad cyfalaf o £1.575m yn darparu ar gyfer Theatr Clwyd.

Mae'r pandemig wedi dangos yn amlwg iawn pa mor bwysig yw'r celfyddydau i lesiant ac i iechyd corfforol. Mae'r Celfyddydau'n darparu dihangfa i lawer o unigolion, aelwydydd a chymunedau yn ystod y cyfnod anodd ac ansicr hwn. Yn y gyllideb hon, byddwn yn cynnal ein buddsoddiad yng Nghyngor Celfyddydau Cymru. Cyn y pandemig, roedd dros bedwar miliwn o bobl mewn digwyddiadau a gyflwynwyd gan aelodau o Bortffolio Celfyddydau Cymru y Cyngor Celfyddydau. Yn 2019/20, roedd 87% o'r boblogaeth oedolion yng Nghymru wedi mynychu digwyddiadau

celfyddydol ac roedd 86% o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol.

Bydd cyllid yn helpu i greu'r cyfalaf diwylliannol ar gyfer adferiad sy'n meithrin y diwydiannau creadigol gyda gwybodaeth, sgiliau a syniadau ac yn parhau i sefydlogi'r sector, gan gynnal cyflogaeth a chyfleoedd gwaith. Mae HARP – Ymchwil Celfyddydau Iechyd Pobl yn un enghraifft o ymyriadau i atal afiechyd. Mae'n gydweithrediad gyda'r GIG i ddatblygu dulliau newydd o ymdrin ag iechyd, llesiant a chreadigrwydd.

Byddwn yn parhau i gefnogi Celfyddydau a Busnes Cymru. Mae'n gyswllt hanfodol rhwng byd busnes a'r Celfyddydau, gan godi arian i gefnogi Artistiaid ac mae'n cynnal digwyddiad gwobrwyo mawreddog, lle mae C&S yn noddi'r wobr Dyngarwch.

### 3.13 Dyraniadau a sylwadau ynghylch cyllid i hyrwyddo mynediad i'r celfyddydau.

Mae cynyddu ac amrywio lefelau mynediad a chyfranogiad yn y celfyddydau yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y llythyr Cylch Gwaith.  Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn defnyddio'r rhan fwyaf o'i gymorth grant i dalu cyllid craidd i 67 o sefydliadau celfyddydol strategol allweddol ac rydym yn disgwyl iddynt barhau i flaenoriaethu gwaith ymgysylltu a mynediad.  Mae Cynllun Corfforaethol pum mlynedd 2018-23: Er Budd Pawb yn pwysleisio'r ymrwymiad i ganolbwyntio mwy ar fynediad, cydraddoldebau ac amrywiaeth ac mae'n nodi bod 'Hyrwyddo Cydraddoldeb' yn sylfaen ar gyfer ymrwymiad clir i ymestyn allan yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru.  Mae ganddo Grŵp Monitro Cydraddoldeb pwrpasol wedi'i gadeirio gan Aelod o'i Gyngor, ac mae ei holl strategaethau a rhaglenni yn destun profion helaeth sy'n edrych ar yr effaith ar gydraddoldeb.

Mae'r sefydliad wedi gohirio cam ymgynghori cyntaf ei Adolygiad Buddsoddi oherwydd y pandemig a bydd yn dechrau'r broses eto yn 2021.  Mae'r broses hon yn cael ei defnyddio i ddewis y grŵp o sefydliadau a fydd yn ffurfio ei Bortffolio Celfyddydau Cymru yn y dyfodol, ar ôl adolygiadau tebyg yn 2010 a 2015.  Bydd y cam ymgynghori cyntaf hwn yn dod i ben ddiwedd 2021. Mae'r Adolygiad Buddsoddi yn canolbwyntio ar alluogi rhagor o bobl yng Nghymru i fwynhau ac i gymryd rhan yn y celfyddydau, bod gweithgareddau a ariennir yn cynyddu amrywiaeth y cyfranogwyr drwy gyrraedd ar draws cymdeithas Cymru yn ehangach a denu amrywiaeth eang o ymwelwyr.

### 3.14 Dyraniadau a sylwadau ynghylch cyllid sydd wedi'i anelu at ddefnyddio'r celfyddydau a diwylliant i fynd i'r afael â thlodi.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn bartner strategol allweddol yn y rhaglen Cyfuno, gan gefnogi sefydliadau i gymryd rhan drwy ddarparu cyngor ymarferol a hwyluso cyflwyniadau rhwng partneriaid Cyfuno ac artistiaid/sefydliadau celfyddydol yn eu hardaloedd.  Pan fydd yn berthnasol, bydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd ac yn lledaenu gwybodaeth drwy ei e-newyddion, ei wefan ac i gleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru. Mae Cyngor y Celfyddydau yn parhau i estyn allan at y cymunedau difreintiedig hynny drwy gleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru ac mae hefyd yn ceisio ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cymunedau hynny.

### 3.15 Dyraniadau a sylwadau ynghylch cyllid sydd wedi'i anelu at annog/galluogi sefydliadau celfyddydol i gynhyrchu mwy o'u hincwm eu hunain.

Mae Rhaglen Cydnerthedd Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cael ei phrofi'n sylweddol yn ystod y pandemig gan fod angen llawer o arian ychwanegol i gadw nifer o Sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru yn solfent.  Bydd angen monitro a chefnogi rhagor ar y rhaglen cydnerthedd nes bydd y sector Celfyddydau yn gallu dychwelyd i'r amgylchiadau gweithredu arferol.

Mae Rhaglen Cydnerthedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau bod sefydliadau diwylliannol yn canolbwyntio mwy ar fusnes, yn rheoli ac yn gweithredu mewn ffordd broffesiynol, a'u bod yn gallu datblygu a rheoli eu gweithgareddau i sicrhau sefydlogrwydd hirdymor a diogelwch ariannol mewn hinsawdd ariannol heriol. Mae'r gronfa hon, sy'n werth £2m, wedi cefnogi 57 o'r 67 o sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru i rannu arferion gorau, modelau cyflawni a threialu dulliau gwahanol o sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Mae hyn wedi bod yn hynod fuddiol i 85% o bortffolio refeniw craidd Cyngor Celfyddydau Cymru sydd wedi cofrestru â'r rhaglen.

Cyfryngau a darlledu

**3.16 Dyraniadau a sylwadau ynghylch unrhyw gyllid ar gyfer y cyfryngau a darlledu.**

Yn 2020-21 cafodd £4.51m ei ddyfarnu i Gyngor Llyfrau Cymru er mwyn cefnogi'r sector cyhoeddi ac i roi cymorth COVID-19 brys i gyhoeddwyr. Mae cyllid refeniw yn cynnwys cymorth i Golwg Cyf a'r Gwasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg, Golwg 360. Mae cyllid hefyd ar gael drwy gymorth argyfwng COVID-19 Llywodraeth Cymru ar draws yr economi, fel y Gronfa Cadernid Economaidd sydd wedi bod o fudd i sefydliadau'r cyfryngau a darlledu yng Nghymru. Cafodd £0.750m o fuddsoddiad cyfalaf ei ddyrannu ar gyfer model cyhoeddi integredig newydd.

Yn 2021-22 roedd cyfanswm y gyllideb yn £3.760m er mwyn parhau i gyllido mentrau Cyngor Llyfrau Cymru a'r Gwasanaeth Newyddion Cymraeg Digidol. Mae Cymru Greadigol yn edrych ar sut gellir cynyddu cyfleoedd i sefydliadau'r cyfryngau a darlledu yng Nghymru elwa o gynlluniau cymorth ehangach Llywodraeth Cymru a rhai allanol yn ystod y cyfnod ariannol hwn. Bydd gwaith i ddatblygu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i gefnogi mwy o weithio mewn partneriaeth ar faterion darlledu hefyd yn ystyried sut gallwn fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllido ar gyfer sefydliadau yng Nghymru.

**3.17 Manylion gwariant y Gronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol, gan gynnwys sut cafodd y penderfyniadau cyllido hyn eu gwneud, a beth maent yn ceisio ei gyflawni.**

Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Hydref 2020, mae'r Gronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol (ICJF) wedi darparu bron i £160k o gyllid i gyhoeddiadau newyddiaduraeth gymunedol annibynnol, a elwir hefyd yn gyhoeddiadau lleol iawn. Mae cyfanswm y cyllid hefyd yn cynnwys £53k o gyllid grant brys a ddarparwyd i helpu cyhoeddiadau mewn ymateb i argyfwng Covid-19.

Roedd yr ICJF yn gwahodd ceisiadau rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020. Roedd y broses yn un ysgafn ac roedd yn rhaid i'r ymgeiswyr ddarparu manylion cryno ynghylch eu cyhoeddiad, cadarnhau eu bod yn gymwys a rhoi gwybod beth fyddai'r arian yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Roedd swyddogion ar gael i drafod ceisiadau a chymhwysedd cyn cyflwyno'r cais ac roeddent ar gael i dywys ymgeiswyr drwy'r broses.

Cafodd y ceisiadau eu gwerthuso fesul achos gan Banel Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a'r ystyriaethau gwerth am arian. Er mwyn helpu gyda'r broses werthuso, rhoddodd pob ymgeisydd cymwys ganiatâd i'w cais gael ei rannu â'r Ganolfan Newyddiaduraeth Gymunedol (C4CJ). Roedd y C4CJ yn gweithredu fel arbenigwyr ym maes newyddiaduraeth leol iawn i roi sylwadau ar y gweithgareddau arfaethedig; fodd bynnag nid oeddent yn rhan o'r broses gymeradwyo.

Ym mis Ebrill 2020, roedd rhywfaint o danwariant a chafodd grant brys ei gynnig i gyhoeddiadau cymwys i gefnogi'r sector yn ystod y misoedd allweddol nesaf er mwyn ceisio cynnal cynaliadwyedd a pharhau i roi newyddion hollbwysig i gymunedau yn ystod argyfwng Covid-19. Roedd y cyllid grant cadernid busnes hwn at ddibenion costau o ddydd i ddydd fel costau rhent, costau cyflogau a ffioedd trwyddedau/gwefannau ac ati.

Mae'r ICJF wedi cefnogi amrywiaeth o weithgareddau ac roedd y gweithgareddau cyllido'n amrywio o arloesi a gynlluniwyd i greu ffrydiau incwm newydd, i adeiladau mwy a gwefannau gwell. Mae canlyniadau'r ICJF yn cynnwys:

- Mwy o farchnata a brandio gan gynnwys optimeiddio peiriannau chwilio er mwyn cynyddu nifer y darllenwyr ac ehangu cyrhaeddiad cyhoeddiadau.
- Mwy o hysbysebu i gynyddu ffrydiau refeniw.
- Gwelliannau technegol i wefannau, meddalwedd newydd, platfformau wedi'u huwchraddio i'w gwneud yn haws eu defnyddio.
- Datblygu gwasanaethau ar-lein newydd.
- Datblygu staff drwy hyfforddiant a bod yn bresennol mewn cynadleddau diwydiant.
- Costau staff arbenigol ychwanegol fel staff gwerthu, ffotograffiaeth a hysbysebu i wella prosesau'r busnes ac i wella cynhyrchiant.
- Tyfu'r busnes a gwell proffesiynoldeb drwy ehangu i ofod swyddfa newydd.

**Cymru Greadigol**

Yn 2021-22, mae cyfanswm dyraniad cyllideb Cymru Greadigol yn £8.697m, gan gynnwys dyraniad ychwanegol o £1m i gyflymu'r prosiectau sy'n cael eu datblygu. Mae'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, gan gynnwys cynhyrchu ffilmiau a theledu, cynhyrchu digidol a cherddorol yn cynrychioli un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru. Mae ei drosiant blynyddol dros £2.2biliwn ac mae'n cyflogi dros 56,000 o bobl, 40% yn fwy na 10 mlynedd yn ôl. Roedd cwmnïau ffilm a theledu wedi gwario oddeutu £55m yng Nghymru yn 2018, gan gefnogi busnesau lleol a chyfrannu at dwristiaeth ac ymwybyddiaeth o Gymru. Fel un o golofnau'r strategaeth ryngwladol, bydd y buddsoddiad ychwanegol o £1m yn cryfhau'r cynnig ac yn hyrwyddo ein henw da rhyngwladol ymhellach fel canolfan ragoriaeth ar gyfer cynhyrchu a dramâu teledu o safon uchel, gyda stiwdios mawr fel Fox, NBC Universal, Netflix ac HBO i gyd yn dewis Cymru ar gyfer eu cynyrchiadau.

### 3.18 Manylion unrhyw gyllid sy'n cael ei ddyrannu i Gymru Greadigol i gefnogi newyddiaduraeth.

Mae manylion cyfanswm y cyllid sef £158,546 yn **Atodiad B**.

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch yr angen am gyllid penodol drwy gyllideb 2021-22 Cymru Greadigol i gefnogi newyddiaduraeth. Felly bydd angen i unrhyw benderfyniad i gefnogi newyddiaduraeth ystyried y gost cyfle a'r effaith gyffredinol ar y gyllideb, gyda llai o gyllideb ar gyfer ar gyfer gweithgareddau ehangach i gefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae modd defnyddio rhaglenni datblygu sgiliau a rhaglenni ehangach fel y prosiect Clwstwr i annog pobl newydd i ymuno â'r farchnad ac i gefnogi datblygiadau newydd mewn newyddiaduriaeth.

Cerddoriaeth Fyw

### 3.19 Manylion unrhyw gyllid sydd wedi cael ei ddyrannu i gefnogi lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad

Mae'r penderfyniadau terfynol ar gyllideb 2021-22 a'r Cynllun Busnes ar gyfer Cymru Greadigol yn cael eu hystyried. Fel sector allweddol sy'n cael ei dargedu gan Cymru Greadigol, bydd Cynllun Busnes 2021-22 Cymru Greadigol yn canolbwyntio ar gymorth i'r diwydiant cerddoriaeth, gyda chyllid yn cael ei neilltuo i gefnogi'r flaenoriaeth hon. Bydd hyn yn ategu'r cyllid a ddyfarnwyd i leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad yn 2020-21 i helpu'r sector i ymateb i heriau pandemig COVID-19 a chefnogi cadernid parhaus y sector.

Cymorth i gynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu

**3.20 Y ffigurau refeniw a refeniw rhagamcanol diweddaraf, a graddfa feddiannaeth Stiwdios Pinewood ers dechrau'r Cytundeb Gwasanaethau Rheoli ym mis Tachwedd 2017.**

Ym mis Tachwedd 2017, ymrwymodd Llywodraeth Cymru a Pinewood i Gytundeb Gwasanaethau Rheoli ar gyfer gweithredu cyfleusterau Stiwdios Gwynllŵg. O dan delerau'r cytundeb, roedd Pinewood yn rheoli'r Stiwdio ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd costau rhedeg y stiwdio'n cyfateb i tua £1.185m y flwyddyn. Yn ystod rhan gyntaf y cytundeb, roedd y ffigurau rhent oddeutu £0.46m y flwyddyn.

Ym mis Mawrth 2019 ymrwymodd Llywodraeth Cymru i Gytundeb Llwyfan gyda Bad Wolf Studios Wales i rentu'r gofod gwag cyfan am ddeuddeg mis, gyda'r dewis i ymrwymo i gytundeb pellach am ddwy flynedd arall. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd Bad Wolf Studios Ltd yn defnyddio 80% o'r stiwdio, a oedd yn cynnwys prif ofod y stiwdio, ac roedd 20% yn cael ei ddefnyddio gan denantiaid yr Hyb Cyfryngau – swyddfeydd bach a osodwyd i gwmnïau'r gadwyn gyflenwi yn y sector. O dan y cytundeb hwn, roedd costau rhedeg y stiwdio'n cael eu talu a chafodd elw bach ei wneud. Dewisodd Bad Wolf i beidio ag ymestyn y cytundeb y tu hwnt i'r cyfnod o 12 mis.

Daeth y cytundeb â Pinewood i ben ar 31 Mawrth 2020, gyda Llywodraeth Cymru yn rheoli'r gofod dros dro nes dod o hyd i ateb ar gyfer tenant tymor hirach. Roedd cyfyngiadau symud Covid wedi dechrau'n fuan ar ôl i'r cytundeb â Bad Wolf ddod i ben. Am gyfnod felly byddai diffyg rhwng yr incwm a'r gwariant gan nad oedd unrhyw incwm o ddefnyddio'r stiwdio i gynhyrchu. Roedd y costau a oedd yn gysylltiedig â gweithredu'r stiwdio wedi aros yn gyson yn ystod y cyfnod hwn (ardrethi busnes a oedd yn £400k y flwyddyn, diogelwch a oedd yn £222k, cynnal a chadw).

Rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2020, cynhyrchwyd refeniw oherwydd bod cynyrchiadau newydd yn cael eu ffilmio yn y stiwdio, gan gynnwys Urban Myth a Hartswood Productions.

Ar ôl cyfnod llwyddiannus o negodi, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i gytundeb prydles 10 mlynedd gyda Great Point Media, cwmni buddsoddi yn Llundain sydd eisoes â phortffolio o ddatblygiadau stiwdio yn UDA. Roedd Great Point Seren Studios wedi cymryd y brydles ar 1af Hydref, ac mae'n gyfle i gwmni cynhyrchu cyfryngau sefydledig fuddsoddi yn y stiwdio a'i datblygu a dod â llu o gynyrchiadau newydd. Mae'r brydles ar delerau masnachol, ac mae'r manylion yn gyfrinachol.

**3.21 Y ffigurau diweddaraf ar gyfer y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiad, yr elw ar y buddsoddiad a'r gwariant yng Nghymru (fesul prosiect).**

Mae crynodeb o fuddsoddiadau'r benthyciadau unigol, y cyllid sydd wedi'i adennill hyd at fis Medi 2019, a balans pob prosiect sydd wedi cael ei gefnogi gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau ar gael yn **Atodiad C**.

### 3.22 Y ffigurau diweddaraf ar gyfer Cronfa Sgrin Cymru gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiad a'r gwariant yng Nghymru (fesul prosiect).

Mae cyfanswm gwerth y cynigion yn £30.908m ac mae disgwyl i'r gwariant fod yn £365.748m. Mae rhestr o'r prosiectau ar gael yn **Atodiad D**.

### 3.23 Y ffigurau diweddaraf ynghylch benthyciad Llywodraeth Cymru i Bad Wolf Studios gan gynnwys cyfanswm yr ad-daliadau a'r gwariant yng Nghymru (wedi'u meincnodi yn ôl targedau Llywodraeth Cymru).

Mae cyfanswm gwerth y buddsoddiad yn Bad Wolf Studios yn £18,447,588. Ym mis Tachwedd 2020, £94.4m oedd y gwir wariant yng Nghymru ac roedd disgwyl £133m. Mae cyfanswm y llog sy'n ddyledus ar y benthyciad yn £1.064m gyda'r ad-daliadau'n dechrau yn 2020-21. Mae'r manylion ariannol diweddaraf ar gael yn **Atodiad E**.

## Annex A - Overview of Culture and Heritage Finances - 2019-20 to 2021-22

| RESOURCE | | 2019-20 | | 2020-21 | | | | | | 2021-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Action** | **BEL Description** | **Second Supp Budget £'000** | **Final Outturn £'000** | **2020-21 Final Budget £'000** | **Change £'000** | **First Supp Budget £'000** | **Change £'000** | **Second Supp Budget £'000** | **Forecast £'000** | **2020-21 Final Budget £'000** | **Change £'000** | **New plans Draft Budget £'000** |
| Support for Culture and the Arts | Arts Council of Wales | 31,346 | 31,346 | 32,042 | 0 | 32,042 | 25,200 | 57,242 | 50,142 | 32,042 | 0 | 32,042 |
| | Amgueddfa Cymru - National Museums of Wales | 22,118 | 22,918 | 24,355 | (445) | 23,910 | 0 | 23,910 | 24,210 | 24,355 | 255 | 24,610 |
| | National Library of Wales | 10,835 | 11,235 | 11,144 | (200) | 10,944 | 0 | 10,944 | 11,194 | 11,144 | 0 | 11,144 |
| | Support for Local Culture & Sport | 3,287 | 2,204 | 2,060 | (298) | 1,762 | 26,000 | 27,762 | 44,462 | 2,060 | 757 | 2,817 |
| | Creative | 1,708 | 1,786 | 1,708 | 0 | 1,708 | 0 | 1,708 | 1,708 | 1,708 | 0 | 1,708 |
| **Total Support for Culture and the Arts** | | **69,294** | **69,489** | **71,309** | **(943)** | **70,366** | **51,200** | **121,566** | **131,716** | **71,309** | **1,012** | **72,321** |
| Media and Publishing | Books Council of Wales | 3,649 | 3,814 | 3,730 | 0 | 3,730 | 0 | 3,730 | 3,730 | 3,730 | 0 | 3,730 |
| **Total Media and Publishing** | | **3,649** | **3,814** | **3,730** | **0** | **3,730** | **0** | **3,730** | **3,730** | **3,730** | **0** | **3,730** |
| Support the Historic Environment | Cadw | 11,608 | 10,452 | 12,411 | 0 | 12,411 | 300 | 12,711 | 12,411 | 12,411 | 1,000 | 13,411 |
| | National Botanic Garden of Wales | 581 | 581 | 594 | 0 | 594 | 0 | 594 | 834 | 594 | 0 | 594 |
| | Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments for Wales | 1,853 | 1,623 | 1,764 | (33) | 1,731 | 0 | 1,731 | 1,731 | 1,764 | 0 | 1,764 |
| **Total Support for the Historic Environment** | | **14,042** | **12,656** | **14,769** | **(33)** | **14,736** | **300** | **15,036** | **14,976** | **14,769** | **1,000** | **15,769** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **TOTAL RESOURCE** | | **86,985** | **85,959** | **89,808** | **(976)** | **88,832** | **51,500** | **140,332** | **150,422** | **89,808** | **2,012** | **91,820** |

| CAPITAL | | 2019-20 | | 2020-21 | | | | | | 2021-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Action | BEL Description | Second Supp Budget £'000 | Final Outturn £'000 | 2020-21 Final Budget £'000 | Change £'000 | First Supp Budget £'000 | Change £'000 | Second Supp Budget £'000 | Forecast £'000 | 2020-21 Final Budget £'000 | Change £'000 | New plans Draft Budget £'000 |
| Support for Culture and the Arts | Arts Council of Wales | 355 | 424 | 755 | 0 | 755 | 2,000 | 2,755 | 4,452 | 755 | 820 | 1,575 |
| | Amgueddfa Cymru - National Museums of Wales | 2,136 | 1,786 | 3,547 | 0 | 3,547 | 0 | 3,547 | 4,267 | 3,547 | 650 | 4,197 |
| | National Library of Wales | 1,955 | 1,305 | 3,095 | 0 | 3,095 | 0 | 3,095 | 3,095 | 3,095 | 100 | 3,195 |
| | Support for Local Culture & Sport | 1,630 | 1,447 | 1,430 | 0 | 1,430 | 1,000 | 2,430 | 2,513 | 1,430 | 0 | 1,430 |
| | Creative | 515 | 2,111 | 5,989 | 0 | 5,989 | 0 | 5,989 | 5,989 | 5,989 | 1,000 | 6,989 |
| **Total Support for Culture and the Arts** | | **6,591** | **7,073** | **14,816** | **0** | **14,816** | **3,000** | **17,816** | **20,316** | **14,816** | **2,570** | **17,386** |
| Media and Publishing | Books Council of Wales | 30 | 175 | 780 | 0 | 780 | 0 | 780 | 780 | 780 | (750) | 30 |
| **Total Media and Publishing** | | **30** | **175** | **780** | **0** | **780** | **0** | **780** | **780** | **780** | **(750)** | **30** |
| Support the Historic Environment | Cadw | 4,710 | 4,014 | 8,731 | 0 | 8,731 | (3,700) | 5,031 | 5,011 | 8,731 | | 8,731 |
| | National Botanic Garden of Wales | 95 | 395 | 195 | 0 | 195 | 0 | 195 | 195 | 195 | 180 | 375 |
| | Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments for Wales | 95 | 97 | 15 | 0 | 15 | 0 | 15 | 35 | 15 | | 15 |
| **Total Support for the Historic Environment** | | **4,900** | **4,506** | **8,941** | **0** | **8,941** | **(3,700)** | **5,241** | **5,241** | **8,941** | **180** | **9,121** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **TOTAL CAPITAL** | | **11,521** | **11,754** | **24,537** | **0** | **24,537** | **(700)** | **23,837** | **26,337** | **24,537** | **2,000** | **26,537** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **TOTAL RESOURCE & CAPITAL** | | **98,506** | **97,713** | **114,345** | **(976)** | **113,369** | **50,800** | **164,169** | **176,759** | **114,345** | **3,920** | **118,265** |

| AME | | 2019-20 | | 2020-21 | | | | | | 2021-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Action | BEL Description | Second Supp Budget £'000 | Final Outturn £'000 | 2020-21 Final Budget £'000 | Change £'000 | First Supp Budget £'000 | Change £'000 | Second Supp Budget £'000 | Forecast £'000 | 2020-21 Final Budget £'000 | Change £'000 | New plans Draft Budget £'000 |
| **Sponsored Bodies Pensions** | Amgueddfa Cymru - National | 2,391 | 0 | 2,391 | | 2,391 | | 2,391 | | 2,391 | 6,609 | 9,000 |
| | National Library of Wales Pension Provision - AME | 622 | 0 | 622 | | 622 | | 622 | | 622 | 4,378 | 5,000 |
| **TOTAL AME** | | **3,013** | **0** | **3,013** | **0** | **3,013** | **0** | **3,013** | **0** | **3,013** | **10,987** | **14,000** |

## Atodiad B – CYLLID NEWYDDIADURAETH

| Cyhoeddiad | Gwariant | Rhif y Cais | Gweithgaredd a Gefnogir |
|---|---|---|---|
| Caerphilly Observer | £24,058 | 1 | Costau staff cymorth, trwyddedau meddalwedd, hyfforddiant staff, gwasanaethau newydd i'r wefan, costau dosbarthu lleol |
| | | 2 | Rhentu gofod swyddfa |
| | | 3 | Crysau polo â'r brand arnynt ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus, hyfforddiant dadansoddeg google, hysbysebu a fideo hyrwyddo |
| | £8,500 | 4 | Cyllid argyfwng Covid-19 |
| | | | |
| My Town Media | £26,608 | 1 | Pecyn cyfryngau, cyfeiriadur busnes, argraffu a dosbarthu taflenni |
| | | 2 | Cyflogi ffotograffydd am 2 fis, gwefan hunanwasanaeth |
| | £8,500 | 3 | Cyllid argyfwng Covid-19 |
| | | | |
| Wrexham.com | £31,624 | 1 | Cefnogi cost y fideo-graffydd/ffotograffiaeth un diwrnod yr wythnos |
| | | 2 | Prynu enw parth newydd, Gogledd Cymru, brandio newydd, ail-ddylunio'r wefan, recriwtio gohebydd rhan amser a chefnogi cyflogau |
| | £8,500 | 3 | Cyllid argyfwng Covid-19 |
| | | | |
| Llanelli Ar-lein | £6,526 | 1 | Hyfforddiant technegol, uwchraddio'r wefan, recriwtio staff gwerthu a marchnata, cefnogi tanysgrifiadau |
| | | 2 | Rhentu gofod swyddfa |
| | | 3 | Cefnogi costau cyflogau, dylunio taflen, costau dosbarthu |
| | £8,452 | 4 | Cyllid argyfwng Covid-19 |
| | | | |
| Inksplott | £14,180 | 1 | Gwella'r wefan, argraffu taflen ddwyieithog a'i dosbarthu, datblygu brand ar gyfer inksplott |
| | £8,500 | 2 | Cyllid argyfwng Covid-19 |
| | | | |
| Cwmbran Life | £2,199 | 1 | Gwella'r wefan a hyfforddiant |
| | £2,400 | 2 | Cyllid argyfwng Covid-19 |
| | | | |
| Deeside.com | £8,500 | 1 | Cyllid argyfwng Covid-19 |
| | | | |
| **CYFANSWM** | **£158,547** | | |

**Atodiad C - PROSIECTAU A GYLLIDWYD GAN Y GYLLIDEB BUDDSODDI YN Y CYFRYNGAU (11 Tachwedd 2020)**

| Prosiect | Gwerth y Buddsoddiad £m | Swm a gafodd ei adennill £m | Enillion / (Colledion) Net hyd yma £m | Gwariant wedi'i dargedu yng Nghymru £m | Gwariant yng Nghymru hyd yma £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dan Reolaeth Pinewood** | | | | | |
| Take Down | 3.144 | 1.11 | -2.03 | 1 | 1.089 |
| Their Finest | 2 | 2.05 | 0.05 | 1.3 | 1.618 |
| The Collection | 1.750[1] | 0.38 | -1.37 | 5.5 | 5.187 |
| Show Dogs | 1.566[2] | 0 | -1.56 | 4.737 | 4.338 |
| Journey's End | 0.85 | 0.631 | -0.21 | 1.5 | 0.903 |
| Don't Knock Twice[3] | 0.63 | 0.655 | 0.02 | 0.63 | 0.641 |
| Minotaur | 0.026 | 0 | -0.026 | | N/A[4] |
| Lionel the First | 0.025 | 0 | -0.025 | Amh | N/A[5] |
| **Cyfanswm** | **9.99** | **4.82** | **-5.16** | **14.667** | **13.776** |
| **Dan Reolaeth Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Trampires[6] | 2 | 0 | -2 | 1.6 | 1.621 |
| Eternal Beauty | 1.05 | 0.87 | -0.16 | 1.214 | 1.255 |
| Bang | 0.35 | 0 | -0.35 | 1.5 | 2.562 |
| Tiny Rebel | 0.318 | 0.03 | -0.288 | 0.25 | 0.26 |
| Goose Green | 0.025 | 0 | -0.025 | Amh | N/A[7] |
| Almost Never (True Believers yn flaenorol) | 0.622 | 0 | -0.622 | 2.118 | 2.118 |
| Six Minutes To Midnight | 0.75 | 0.51 | -0.24 | 3.88 | 3.52 |
| **Cyfanswm** | **5.11** | **1.41** | **-3.67** | **10.562** | **11.336** |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | **15.1** | **6.2** | **-8.82** | **25.229** | **25.112** |

[1] Mae gwerth y buddsoddiad yn cynnwys £600,000 o gyllid grant o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

[2] Mae gwerth y buddsoddiad yn cynnwys £362,000 o gyllid grant o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

[3] Roedd Don't Knock Twice hefyd wedi cael £75,000 o gyllid grant dan gynllun Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru

[4] Nid yw cyllid datblygu yn cynnwys ymrwymiad Gwariant yng Nghymru

[5] Nid yw cyllid datblygu yn cynnwys ymrwymiad Gwariant yng Nghymru

[6] Roedd Trampires hefyd wedi cael £652,572 o gyllid grant dan gynllun Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru

[7] Nid yw cyllid datblygu yn cynnwys ymrwymiad Gwariant yng Nghymru

## Atodiad D - BUDDSODDIAD CRONFA SGRIN CYMRU (11 Tachwedd 2020)

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru) | Gwerth y Cynnig £m | Gwariant a Ragwelir £m |
|---|---|---|---|---|
| 2012/13 | Tonto Films and Television Ltd | Da Vinci's Demons Cyfres 1 | 0.495 | 3.823 |
| 2012/13 | Urban Myth Films | Atlantis Cyfres 1 | 0.25 | 4.026 |
| 2012/13 | Pesky Productions Ltd (Boj & Buddies) | Boj & Buddies | 0.2 | 1.003 |
| 2012/13 | Fiction Factory (Hinterland Films Ltd) | Hinterland Cyfres 1 | 0.215 | 3.691 |
| 2012/13 | Tonto Films and Television Ltd (DVDS2) | Da Vinci's Demons Cyfres 2 | 0.99 | 15 |
| *2013/14* | Avanti Media Group | Wonder World | *0.127 | 0.763 |
| 2013/14 | Urban Myth Films | Atlantis Cyfres 2 | 0.25 | 4.026 |
| 2013/14 | Lime Pictures Limited | Rocket's Island | *0.143 | 0.966 |
| 2013/14 | Mirror Productions | Petroleum Spirit | 0.051 | 0.358 |
| 2013/14 | Modern Television | A Poet In New York | 0.053 | 0.855 |
| 2013/14 | Adastra Creative a Shrinking Cap Productions Ltd | Grandpa in my pocket | 0.129 | 1.612 |
| 2013/14 | Three Stones Media (The Rastamouse company) | Rastamouse Cyfres 4 | 0.145 | 0.885 |
| *2013/14* | Pure Grass Films Ltd (Drake Equation Ltd) | The Drake Equation | *0.74 | 5.208 |
| *2014/15* | Lime Pictures Limited | Rocket's Island Cyfres 4 | 0.07 | 0.7 |
| 2013/14 | Lupus Films | Toot the Tiny Tugboat / Ethel & Ernest | 0.55 | 3.034 |
| 2013/14 | Green Bay Media Ltd | Castle Builders | 0.045 | 0.32 |
| 2013/14 | YJB Films (From a Jack to a King Ltd) | From a Jack to a King | 0.1 | 1.229 |
| 2013/14 | Hartswood Television Ltd | Lady Chatterleys Lover | 0.125 | 0.813 |
| 2014/15 | Gritty Realism Productions Ltd | Heart of Darkness | 0.15 | 1.794 |
| 2014/15 | TCFTV UK Productions | The Bastard Executioner | 2.5 | 10 |
| 2014/15 | Cwmni Da Cyf | Country Fair | 0.125 | 1.019 |
| 2014/15 | Animortal Studio (Trampires Ltd) | Trampires | 0.674 | 6.738 |
| 2014/15 | Tiger Aspect Productions (Tiger Aspect (D&F) Ltd) | Decline and Fall | 0.1 | 1.8 |
| *2014/15* | RF Movie Productions Ltd | Robin Friday - The Movie | *0.2 | 1.95 |
| 2014/15 | Touchpaper Televison Ltd | Coming up | 0.08 | 0.809 |
| 2014/15 | Fiction Factory Films Ltd (Hinterland Films 2 Ltd) | Hinterland 2 | 0.304 | 5.3 |

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru) | Gwerth y Cynnig £m | Gwariant a Ragwelir £m |
|---|---|---|---|---|
| 2014/15 | Fiction Factory Films Ltd (Hinterland Films 3 Ltd) | Hinterland 3 | 0.25 | 4.21 |
| 2015/16 | Bad Wolf Ltd | Bad Wolf Productions | 9 | 133 |
| 2015/16 | Hartswood Films (Sherlock TV Ltd) | Sherlock Cyfres 4 | 0.24 | 2.409 |
| 2015/16 | Heel Stone Pictures Ltd | Crossing the Border | 0.202 | 2.519 |
| 2015/16 | Ninth Floor UK Productions Limited | Will Cyfres 1 | 1.5 | 18.761 |
| 2015/16 | Lookout Point Ltd (Pinewood Films 14) | The Collection | 0.6 | 5.5 |
| 2015/16 | Red & Black Films (Don't Knock Twice Ltd) | Don't Knock Twice | 0.075 | 0.63 |
| 2015/16 | Vertigo Television Ltd | Britannia VFX | 1.1 | 11.149 |
| 2016/17 | Beakus Ltd | Toggle Top | 0.076 | 0.944 |
| 2016/17 | Cloth Cat Animation Ltd (Clothcat LBB Ltd) | Luo Bao Bai | 0.225 | 3.183 |
| 2016/17 | Riverstone Pictures (Showdogs Ltd) | Showdogs | 0.362 | 4.737 |
| 2016/17 | Vox Pictures (Keeping Faith Ltd) | Keeping Faith | 0.328 | 4.25 |
| 2016/17 | Green Bay Media | Mountains and Life | 0.03 | 0.54 |
| 2016/17 | New Pictures (Requiem Productions Ltd) | Requiem | 0.4 | 5.016 |
| 2016/17 | Severn Screen Ltd (Apostle Films Ltd) | Apostle | 0.385 | 5.767 |
| 2017/18 | World Productions (BTK 2016 Ltd) | Born to Kill | 0.2 | 2.5 |
| 2017/18 | The Forge Entertainment Ltd | Kiri | 0.2 | 2.382 |
| 2017/18 | Coracle Pictures Limited (Denmarc) | Denmarc | 0.085 | 1.383 |
| 2017/18 | Rondo Media Cyf | The Wall | 0.045 | 0.363 |
| 2017/18 | Touchpaper Television Ltd | 4Stories | *0.04 | 0.631 |
| 2017/18 | Illuminated Productions Ltd | The Rubbish World of Dave Spud | 0.09 | 0.906 |
| 2018/19 | Eleven Film Ltd | Schooled | 0.485 | 3.879 |
| 2018/19 | Boom Cymru | 15 days | 0.089 | 1.074 |
| 2018/19 | Dream Horse Films Limited, Popara Films Ltd a Popara Films (DH) Limited | Dream Horse | 0.35 | 4.384 |
| 2018/19 | JJ Productions Ltd (Short Form Film) | Jamie Johnson Cyfres 4 | 0.156 | 1.927 |
| 2018/19 | Mad as Birds Ltd a Reliance Entertainment Productions Six Ltd | Six Minutes To Midnight | 0.4 | 3.879 |
| 2018/19 | Keeping Faith (Cyfres 2) Productions Ltd (Vox Pictures) | Keeping Faith Cyfres 2 | 0.3 | 4.654 |

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru) | Gwerth y Cynnig £m | Gwariant a Ragwelir £m |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | Hat Trick Productions | Warren | 0.109 | 1.304 |
| 2018/19 | Monterey Productions Ltd (HBO) | Brooklyn | 0.22 | 2.412 |
| 2018/19 | GOL Production Ltd (Pulse Films) | Gangs of London | 0.35 | 4.209 |
| 2018/19 | Iele Productions | Merched Parchus | 0.041 | 0.444 |
| 2018/19 | Blacklight TV | 4Stories cyfres 2 | 0.102 | 1.574 |
| 2019/20 | All That Limit | Brave New World | 2 | 20 |
| 2019/20 | Joio | Bang Cyfres 2 | 0.19 | 2.3 |
| 2019/20 | JJ Productions Ltd (Short Form Film) | Jamie Johnson Cyfres 5 | 0.06 | 1.827 |
| 2019/20 | Vox Pictures (Keeping Faith Cyfres 3) | Keeping Faith Cyfres 3 | 0.240 | 3.965 |
| 2019/20 | WP Productions Ltd (World Productions) | The Pembrokeshire Murder | 0.200 | 2.135 |
| 2020/21 | Hartswood TV Ltd | Roald & Beatrix: The Case Of The Curious Mouse | 0.225 | 2.247 |
| 2020/21 | Illuminated Productions Ltd | The Rubbish World of Dave Spud Cyfres 2 | 0.140 | 1.407 |
| 2020/21 | Joio Cyf (Joio (Bang 2) Ltd) | Bang Cyfres 2 | 0.190 | 2.302 |
| 2020/21 | Lupus Films (Kensukes Kingdom Ltd) | Kensukes Kingdom | 0.100 | 0.841 |
| 2020/21 | Little Door Productions Ltd (Little Door (The Pact) Ltd) | The Pact | 0.595 | 5.953 |
| 2020/21 | One Tribe TV Limited | Wonders of the Celtic Deep | 0.077 | 0.618 |
| 2020/21 | Eleven Films (Starco TV 3 Ltd) | Sex Education Cyfres 3 | 0.432 | 5.186 |
| 2020/21 | WOTW2 Ltd- Urban Myth films | War of the Worlds Cyfres 2 | 0.750 | 7.344 |
| **CYFANSWM (heb gynnwys cynigion a dynnwyd yn ôl*)** | | | **30.908** | **365.746** |

**Atodiad E – BUDDSODDIAD BAD WOLF STUDIOS (11 Tachwedd 2020)**

| Buddsoddiad | Gwerth y Buddsoddiad (£) | Wedi'i dynnu i lawr hyd yma (£) | I'w dynnu i lawr mewn blynyddoedd i ddod (£) | Llog wedi cronni ar 7.52% hyd yma (£) | Llog wedi'i dalu ar 7.52% hyd yma (£) | Arian cyfatebol Bad Wolf (£) | Gwariant a ddisgwylir yng Nghymru (£) | Gwariant a gyflanwyd yng Nghymru (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaendal Ad-daladwy | 4,500,000 | 4,500,000 | - | 1,063,937 | 51,481 | - | 54,000,000 | 54,000,000 |
| Grant Arall | 4,500,000 | 2,305,183 | 2,194,817 | Amh | Amh. | - | 79,000,000 | 40,396,745 |
| Prynu Adeiladau 1 a 2, Parc Trident | 6,000,000 | 6,000,000 | - | Amh | Amh. | - | Amh | Amh. |
| Ffioedd caffael | 30,000 | 30,000 | - | Amh | Amh. | - | Amh | Amh. |
| Gwaith Gosod Stiwdio | 2,650,000 | 2,650,000 | - | Amh | Amh. | 2,800,000 | Amh | Amh. |
| Gwaith Gosod Stiwdio Pinewood Cymru | 667,588 | 667,588 | - | Amh | Amh. | 692,412 | Amh | Amh. |
| SAWS | 80,000 | 40,000 | - | Amh | Amh. | - | Amh | Amh. |
| Blaendal | Amh | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | 250,000 | Amh | Amh. |
| Rhwydwaith Drama Ieuenctid | 20,000 | 20,000 | - | - | Amh | - | Amh | Amh. |
| **Cyfanswm** | **18,447,588** | **16,212,771** | **2,194,817** | **1,063,937** | **51,481** | **3,742,412** | **133,000,000** | **94,396,745** |

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

**Dyddiad:** **Dydd Iau 14 Ionawr 2021**
**Amser:** **10:45-11:45am**
**Teitl:** **Papur tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2021-22 – Cyllidebau ar gyfer y Gymraeg**

## Diben

1. Darparu gwybodaeth mewn perthynas â chynigion y gyllideb ar gyfer y Gymraeg fel yr amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

## Cyfeiriad Strategol

2. Ym mis Gorffennaf 2017, fe wnaethom lansio ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg: *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* gyda dau darged cyffredinol:
    - Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
    - Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.

3. Mae tair prif thema i'r strategaeth:

    - Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
    - Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
    - Thema 3: Creu amodau ffafriol – sy'n ymwneud â gosod cyd-destun a seilwaith briodol i gefnogi themâu 1 a 2.

4. Mae *Cymraeg 2050*: *Rhaglen Waith 2017-21* a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r strategaeth, yn amlinellu ein cynlluniau i'r Senedd bresennol osod y sylfeini sy'n ofynnol ar gyfer y strategaeth. Mae rhagor o wybodaeth am y cerrig milltir sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Waith wedi'i chynnwys ym mharagraffau 37-59 o'r papur hwn.

5. Wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf o waith Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ein prosiectau ar y Gymraeg, wedi wynebu heriau eleni oherwydd COVID-19. Ond, gyda phob her daw cyfle: cyfle i edrych ar bethau mewn ffordd wahanol. Rwy'n falch iawn o weld yr ystod a'r amrywiaeth o waith a wnaed yn ystod cyfnod COVID-19, nid yn unig yma yn Llywodraeth Cymru, ond hefyd gan ein partneriaid, gan grwpiau a chan unigolion ledled Cymru gyfan.

6. Byddwn yn paratoi ein hail Raglen Waith y flwyddyn nesaf, a bydd angen i hyn adlewyrchu sut mae'r ffordd rydym yn byw wedi newid. Drwy gadw llygad ar bolisïau wrth iddynt newid ac ymateb yn rhagweithiol i'r newidiadau hynny, byddwn yn sicrhau ein bod yn gyson ymwybodol o'n nodau a'n gweledigaeth gyffredinol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn gweithio tuag at y nodau hynny.

7. Er bod cyd-destun ein gwaith wedi newid yn sylweddol ers lansio *Cymraeg 2050*, mae ein blaenoriaethau strategol wedi aros yr un fath. Mae'r gwaith caled rydym wedi'i wneud eisoes a'r cyfleoedd newydd yr ydym wedi'u gweld dros y flwyddyn ddiwethaf yn sylfaen gref i'r llywodraeth nesaf barhau â'n gweledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

8. Mae Prosiect 2050 bellach wedi'i sefydlu i roi ysgogiad ychwanegol i ymdrechion i gyflawni strategaeth *Cymraeg 2050*. Gorchwyl yr uned cynllunio ieithyddol amlddisgyblaethol newydd hon yw:

   - Cydlynu'r gwaith o gynllunio ein llwybr tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr, o'r blynyddoedd cynnar, drwy ddarpariaeth addysg statudol cyfrwng Cymraeg, i addysg ôl-orfodol i Cymraeg i oedolion.
   - Dyblu'r defnydd o'r Gymraeg drwy greu mentrau newydd, a gwerthuso'r mentrau cyfredol.
   - Cefnogi meysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru i gyfrannu at y gwaith o gynnal ein cymunedau Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn unol â *Cymraeg 2050*.

9. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a *Cymraeg 2050* oll yn cefnogi ei gilydd.

## Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2021-22

10. Mae Cyllideb Ddrafft 2021-22 yn darparu cynllun gwariant blwyddyn ar gyfer refeniw a chyfalaf. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y Gymraeg yw £36.977m, sy'n cynnwys £36.947m ar gyfer adnoddau a £0.030m ar gyfer cyfalaf. Y Gweinidog Addysg sy'n gyfrifol am addysg Gymraeg ac addysg ddwyieithog a chefnogir hyn gyda chyllideb adnodd £12.675m. Mae'r tablau isod yn dangos cyfanswm y cyllidebau ar gyfer y Gymraeg yn ôl portffolio:

| TABL 1: Trosolwg o'r Gyllideb Refeniw – Cyfanswm ar gyfer y Gymraeg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Llinell Wariant y Gyllideb (BEL)** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000** | **Llinell Sylfaen Wedi'i Hailddatgan £'000** | **Newid £'000** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2021-22 £'000** |
| **MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg** | | | | | | |
| Y Gymraeg | Y Gymraeg | 20,949 | - | 20,949 | - | 20,949 |
| | Comisiynydd y Gymraeg | 3,207 | - | 3,207 | 116 | 3,323 |
| **Cyfanswm** | | **24,156** | **-** | **24,156** | **116** | **24,272** |
| **MEG Addysg** | | | | | | |
| Y Gymraeg mewn Addysg | Y Gymraeg mewn Addysg | 12,675 | - | 12,675 | - | 12,675 |
| **Cyfanswm** | **CYFANSWM** | **12,675** | **-** | **12,675** | **-** | **12,675** |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | | **36,831** | **-** | **36,831** | **116** | **36,947** |

| TABL 2: Trosolwg o'r Gyllideb Gyfalaf – Cyfanswm ar gyfer y Gymraeg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Llinell Wariant y Gyllideb (BEL)** | **Cyllideb Derfynol 2020-21 £'000** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000** | **Llinell Sylfaen Wedi'i Hailddatgan £'000** | **Newid £'000** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2021-22 £'000** |
| Y Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg | 385 | (385) | - | 30 | 30 |
| **Cyfanswm** | | **385** | **(385)** | **-** | **30** | **30** |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | | **385** | **(385)** | **-** | **30** | **30** |

11. Rhaid imi nodi hefyd mai'r nod yw prif ffrydio *Cymraeg 2050* i holl feysydd portffolio Llywodraeth Cymru ac mae gwariant ar yr iaith eisoes wedi'i ymgorffori ym mhortffolios llawer o weinidogion eraill.

***Effaith y pandemig ar ddyraniadau cyllideb 2021-22***

12. O ganlyniad i'r pandemig, yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2020-21, a gyhoeddwyd ar 27 Mai, cafodd £1.995m o refeniw ei nodi a'i dychwelyd i'r gronfa ganolog o BEL y Gymraeg er mwyn cefnogi blaenoriaethau COVID-19 Llywodraeth Cymru. Roedd y cyllidebau a ailgyflwynwyd i gefnogi'r ymdrechion hyn yn ymwneud â thri chategori:

- Y pethau hynny na allent ddigwydd mwyach o ganlyniad i'r pandemig (er enghraifft rhai o weithgareddau'r Urdd a rhywfaint o gyllid mewn perthynas â'r Gymraeg yn y gymuned);
- Y gweithgareddau hynny y gellid eu gohirio (er enghraifft mewn perthynas â'r prosiect Deall Dwyieithrwydd, y polisi newydd ar drosglwyddo a defnyddio'r Gymraeg mewn teuluoedd, Adolygiad o Grantiau Hyrwyddo'r Iaith, y contract ar gyfer arbenigwyr allanol i gynghori ar y Prosiect 2050); a
- Y rhai y gellid eu gwneud yn wahanol (roedd y rhain yn arbennig o berthnasol i weithgareddau yn y gymuned, neu'r rhai'n ymwneud â dysgu e.e. cyrsiau sy'n cael eu cynnal gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol y gellid eu symud yn llwyddiannus ar-lein).

13. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer ystod o ymyriadau i ymateb i'r argyfwng presennol ac i liniaru ei effaith. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol i rai partneriaid, er enghraifft: cyfalaf o £3.1m (MEG Addysg) i'r Urdd i ddarparu cymorth gan nad oedd modd i'r mudiad greu incwm o'i ganolfannau preswyl a £0.5m (MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg) i'r Eisteddfod Genedlaethol i ddarparu cymorth gyda'r costau sy'n gysylltiedig â gohirio Eisteddfod Tregaron.

14. Ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2021-22, y llinell sylfaen a ddefnyddir at ddibenion cymharu yw Cyllideb Derfynol 2020-21. O ganlyniad, nid yw'r gostyngiad o £1.995 miliwn i gyllidebau 2020-21 mewn ymateb i COVID-19, ac a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2020-21, yn cael ei adlewyrchu yn y gyllideb ddrafft ac fe'i hadferwyd yn llawn ar gyfer 2021-22, gan fod yr ymarfer ail-alinio yn ymarfer ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21yn unig. Mae hyn ac eithrio £0.2 miliwn ar gyfer cyllideb y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol lle mae'r gostyngiad wedi bod yn bosibl oherwydd arbedion gweithredol a wnaed oherwydd y symud tuag at ddysgu ar-lein. Mae rhagor o fanylion ym mharagraffau 60-65.

15. Byddaf yn parhau i adolygu effaith y pandemig ar y sefydliadau yr ydym yn eu hariannu wrth inni symud i'r flwyddyn ariannol nesaf er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn ymateb yn y ffordd orau i'r heriau sy'n esblygu yn sgil y pandemig. Mae’r Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd yn awyddus i gadw cymaint o hyblygrwydd â phosibl nawr wrth i ni ddod i ddeall yn well effaith misoedd y gaeaf ar ledaeniad yr haint. Yn benodol, roedd gofyn i’r cyllid ychwanegol gefnogi’r GIG a llywodraeth leol ar reng flaen ein hymateb i’r pandemig. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi hefyd i feysydd eraill fel y Gymraeg a chadwaf yr hawl i wneud cais am gyllid o’r gronfa COVID-19 wrth gefn i helpu gyda sefydliadau sy’n cefnogi’r Gymraeg.

### *Yr alldroadau terfynol ar gyfer 2019-20 a'r rhagolygon ar gyfer 2020-21*

16. Yr alldro olaf ar gyfer 2019-20 ar gyfer y Gymraeg oedd £36.5m a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2020-21 yw £35.5m heb unrhyw amrywiant sylweddol i gyllidebau fel y manylir yn **Atodiad A**.

## Rhan 1: Sylwadau ar ddyraniadau Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL)

### BEL y Gymraeg (MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg)

17. Pwrpas BEL y Gymraeg yw cefnogi *Cymraeg 2050* mewn perthynas â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau'r seilwaith cywir.

18. Mae'r cyllid o fewn BEL y Gymraeg wedi'i gynnal ar £20.949m ar gyfer 2021-22. Mae'r gyllideb yn cefnogi gweithgareddau partneriaeth yn bennaf gan gynnwys:

    - Cymraeg i Blant – i gefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i ddefnyddio'r Gymraeg gartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, ac i gefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol. Rhoddir rhagor o fanylion ym mharagraff 41.
    - Cyflwyno hyfforddiant iaith Gymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Rhoddir rhagor o fanylion ym mharagraffau 60-65.
    - Cyflwyno'r Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg.
    - Cynyddu'r defnydd o'r iaith mewn cymunedau er enghraifft drwy ddarparu grantiau i'r mentrau iaith, i Ferched y Wawr ac i'r Ffermwyr Ifanc.

- Cyflwyno rhaglen Siarter Iaith.
- Ariannu arbenigedd ychwanegol mewn cynllunio ieithyddol fel rhan o'r Prosiect 2050.
- Ariannu Tribiwnlys y Gymraeg.
- Ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r strategaeth.

**BEL Comisiynydd y Gymraeg (MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg)**

19. Mae'r gyllideb (£3.207m o refeniw a £0.030m o gyfalaf) yn cefnogi Comisiynydd y Gymraeg (mae rhagor o fanylion ym mharagraffau 78-79) sydd â swyddogaethau a phwerau eang sy'n cynnwys:

- Gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Gweithredu system safonau'r Gymraeg.
- Cynnal ymholiadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd.
- Ymchwilio i ymyrraeth honedig â rhyddid unigolyn i gyfathrebu yn Gymraeg.
- Hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gyda'r bwriad o gynyddu'r defnydd o iaith – yn enwedig yn y trydydd sector a'r sector preifat.

**BEL y Gymraeg mewn Addysg (MEG Addysg)**

20. Mae'r gyllideb wedi'i chynnal ar £12.675m ar gyfer 2021-22. Mae'r BEL yn cefnogi camau gweithredu sy'n gysylltiedig ag addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg o fewn *Cymraeg 2050*, sy'n cynnwys:

- Cyllid i Mudiad Meithrin gynyddu darpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg fel llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cynllunio addysg Gymraeg i gynnwys gwaith paratoi ar gyfer gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2020.
- Comisiynu adnoddau addysgu a dysgu.
- Cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a datblygu darpariaeth Gymraeg ôl-16.

## Rhan 2: Gwybodaeth arall

### Gwybodaeth yn ymwneud â sut mae cyflawni portffolio yr Iaith Gymraeg a'i ganlyniadau cysylltiedig, a sut y caiff hyn ei fonitro a'i werthuso i ddangos gwerth am arian

21. O ran sicrhau gwerth am arian, mae eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol yn ganolog i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb. Mae gennyf brosesau sefydledig ar

waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd.

22. Ar gyfer y weinyddiaeth hon, bydd y cynnydd o ran cyflawni'r targedau tymor byr a amlinellir yn *Cymraeg 2050: Rhaglen Waith 2017-21* yn fesur o gynnydd tuag at gyflawni nodau *Cymraeg 2050*. Mae'r cynnydd yn ei gyfanrwydd yn cael ei fonitro'n flynyddol drwy broses sy'n cynnwys cyhoeddi Cynllun Gweithredu blynyddol[1] ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac yna Adroddiad Blynyddol[2] ar ddiwedd y flwyddyn i adrodd yn ôl ar y camau y manylir arnynt yn y Cynllun Gweithredu. Gwneir adolygiadau rheolaidd i fonitro gwariant a chanlyniadau i sicrhau bod unrhyw adnoddau sydd ar gael yn cael eu hailflaenoriaethu er mwyn cyflawni'r strategaeth.

23. Mae Cyngor Partneriaeth y Gymraeg yn chwarae rôl wrth gynghori ar y cynnydd tuag at darged 2050 ac effeithiolrwydd ein rhaglenni a'n hymyriadau. Mae gan Fwrdd Rhaglen Cymraeg 2050 o fewn Llywodraeth Cymru y gorchwyl o asesu risgiau a nodi camau i'w lliniaru a phrif ffrydio'r strategaeth ym mhob un o feysydd polisi'r Llywodraeth.

24. Yn ogystal â hynny, rwyf wedi sefydlu Prosiect 2050 i roi ysgogiad ychwanegol i ymdrechion i gyflawni strategaeth *Cymraeg 2050* fel y manylir uchod ym mharagraff 8. Mae hyn yn unol â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a gyhoeddodd y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2019 yn dilyn ei ymchwiliad i "Cefnogi a Hybu'r Gymraeg".

25. O ran gwerthuso, rydym wedi defnyddio canfyddiadau astudiaeth ymchwil a gyhoeddwyd yn 2017: Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd i lywio ein Polisi cenedlaethol newydd ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd y byddaf yn ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd.

26. Cyhoeddwyd Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a'i rhaglenni cysylltiedig ym mis Gorffennaf 2020. Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio'r canfyddiadau a'r argymhellion i lywio'r gwaith o ddylunio a chyflawni'r Siarter Iaith yn y dyfodol.

27. Mae dau nod i'r gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg. Y cyntaf yw archwilio sut, ac i ba raddau, y mae'r Cynllun Sabothol yn cyfrannu at newid yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu neu ei defnyddio fel cyfrwng addysgu mewn ysgolion. Yr ail nod yw asesu cyfraniad y Cynllun Sabothol at ddarpariaeth datblygiad proffesiynol i ymarferwyr ddatblygu eu sgiliau Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn darparu sylfaen ar gyfer datblygiad strategol y Cynllun Sabothol a hyfforddi ymarferwyr yn y dyfodol. Mae adroddiad terfynol y gwerthusiad wedi'i ohirio oherwydd COVID-19 a bydd yn cael ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd.

---

[1] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/cymraeg-2050-miliwn-o-siaradwyr-cynllun-gweithredu-202021.pdf

[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/Cymraeg%202050%20Miliwn%20o%20siaradwyr%20adroddiad%20blynyddol%202019%20i%202020.pdf

28. Yn ogystal â'r gwerthusiadau hyn, fe wnaethom gyhoeddi astudiaeth ymchwil ar y berthynas rhwng y Gymraeg a'r economi ym mis Chwefror 2020. Mae'r astudiaeth yn darparu asesiad o'r dystiolaeth sydd ar gael ar y berthynas rhwng iaith a'r economi, a'r dulliau a ddefnyddiwyd yn yr astudiaethau hyn. O ganlyniad i'r adroddiad, sefydlais is-grŵp economi a'r Gymraeg o fewn Cyngor Partneriaeth y Gymraeg. Bydd yr is-grŵp yn edrych ar y dystiolaeth yn yr adroddiad yn ogystal â ffynonellau eraill. Nod yr is-grŵp yw darparu cyngor ar sut y gellir cryfhau'r berthynas rhwng datblygiad economaidd a'r Gymraeg a pha ymyraethau economaidd y gellid eu gweithredu i gryfhau economi Cymru, a fydd hefyd yn cefnogi'r Gymraeg.

29. O ran gwariant ataliol, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn ymchwil i ddeall cynulleidfaoedd er mwyn dysgu mwy am ymddygiad ac agweddau'r cyhoedd tuag at yr iaith. Bydd hyn yn llywio ein strategaeth farchnata, y ffordd yr ydym yn targedu ein cynulleidfa, ac yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r gynulleidfa gywir gyda'r neges gywir. Bydd hyn hefyd yn golygu y byddwn yn gwario ein cyllideb yn fwy effeithiol, gan arwain at ganlyniadau gwell, ac yn bwydo i strategaethau marchnata partneriaid, gyda'r nod o greu dull 'un llais' i hyrwyddo'r Gymraeg, a thrwy hynny leihau dyblygu gwaith a gwariant ar ddatblygu negeseuon, brandio ac adnoddau. Y nod yw y bydd y gwaith hwn hefyd yn braenaru'r tir ar gyfer mentrau eraill, gan wneud pobl yn fwy parod i groesawu ymgyrchoedd megis annog rhieni i ystyried addysg Gymraeg ar gyfer eu plant a throsglwyddo'r iaith o fewn y teulu.

30. At hynny, mae gan ein targed o gynyddu darpariaeth Gymraeg y blynyddoedd cynnar drwy 40 o grwpiau meithrin erbyn 2021 y potensial i leihau gwariant ar hybu ymhlith grwpiau oedran hŷn, gan eu bod yn helpu unigolion i sefydlu arferion iaith cadarn pan fyddant yn ifanc. Yn hyn o beth, mae Cylchoedd Meithrin yn cyfrannu at y gwaith o sefydlu'r amodau sy'n creu siaradwyr Cymraeg newydd drwy drochi plant yn yr iaith a'i diwylliant, a thrwy helpu i fwydo ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwariant hwn ar y blynyddoedd cynnar yn braenaru'r tir ar gyfer ymyraethau pellach ar ffurf y Siarter Iaith, er enghraifft (sydd â'r nod o annog defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith plant ysgol o oedran ifanc)**.**

31. Mae'r dirwedd ddigidol hefyd yn cyflwyno newid mawr ar gyfer y Gymraeg, a gellid ystyried sawl elfen ohoni'n wariant ataliol. Mae ein Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg yn cynnwys sicrhau bod cydrannau digidol Cymraeg yn cael eu creu a'u cynnal fel y gall pob sefydliad ac unigolyn eu defnyddio a'u hailddefnyddio'n eang. Mae lledaeniad technoleg Gymraeg hefyd yn hanfodol ar gyfer normaleiddio'r iaith a galluogi pobl i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

32. Lansiwyd y Cynllun gennym ar 23 Hydref 2018. Mae'n ymdrin â thri maes allweddol:
    - **Technoleg Lleferydd Cymraeg** – Meddalwedd adnabod lleferydd-i-destun a synthesis testun i leferydd.
    - **Cyfieithu gyda chymorth cyfrifiadur** – rhannu ac ailddefnyddio cyfieithiadau testun Saesneg<>Cymraeg drwy dechnoleg 'cof cyfieithu'.

- **Deallusrwydd Artiffisial Sgwrsiol** – byddai peiriannau yn *deall* y Gymraeg (yn ogystla â'i *hadnabod*).

33. Fe wnaethom ymateb i'r heriau a gododd yn sgil COVID-19 drwy drefnu bod Cysgliad (pecyn o adnoddau Cymraeg, er enghraifft gwirydd sillafu ac offeryn sy'n helpu gyda threigladau, gan Brifysgol Bangor) ar gael yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio gan unigolion, busnesau bach a phob ysgol yng Nghymru. Roeddwn yn credu bod hyn yn bwysig o dan yr amgylchiadau newydd, yn enwedig i ddisgyblion ysgol a'u rhieni. Roeddwn yn ymwybodol y gallai fod yn anodd i nifer o blant ddysgu'n annibynnol gartref gyda chymorth gan eu rhieni a'u gofalwyr pan fyddai ysgolion ar gau yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Weithiau, nid oedd oedolyn a oedd yn gallu siarad Cymraeg gartref i'w helpu gyda'u gwaith.

34. Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi diwygio'r targedau a osodwyd ar gyfer Prifysgol Bangor o dan ei chytundeb grant er mwyn darparu adnodd sy'n gallu isdeitl fideos Cymraeg yn awtomatig. Mae hyn mewn ymateb i gais gan brifysgolion sy'n dymuno isdeitlo darlithoedd ar fideo, fel eu bod ar gael i fyfyrwyr nad ydynt yn gallu mynychu darlithoedd mwyach oherwydd y pandemig.

35. Mae ein gwasanaeth cyfieithu a chynghori Helo Blod i fusnesau bach a'r trydydd sector hefyd yn defnyddio'r dechnoleg cyfieithu awtomeiddio ddiweddaraf i gynorthwyo cyfieithwyr cymwys i ddarparu cyfieithiadau cyflym a chyson. Mae hyn hefyd yn sicrhau gwerth am arian drwy beidio byth â gorfod talu am yr un cyfieithiadau neu gyfieithiadau tebyg.

36. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella sut rydym yn gwneud penderfyniadau am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ein nod yw sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nod ein cynlluniau gwariant yw sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau tymor byr a hirdymor.

## Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn eich portffolio i gefnogi strategaeth Cymraeg 2050 a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

37. Rwyf wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth am sut mae dyraniadau'n cefnogi *Cymraeg 2050* mewn adrannau blaenorol o'r papur hwn. Cyfeiriaf yn benodol yn awr at y cerrig milltir a gynhwysir yn Rhaglen Waith *Cymraeg 2050* ar gyfer 2017-2021.

38. Nid yw pob carreg filltir yn perthyn i'm portffolio i. Fodd bynnag, mewn perthynas â phob un, dyrennir gwariant yn briodol er mwyn ysgogi cynnydd tuag at y cerrig milltir hyn.

39. Nodir gwybodaeth am gerrig milltir unigol isod. Rhestrir gwybodaeth am gerrig milltir sydd o fewn portffolio'r Gweinidog Addysg yn yr adran nesaf ym mharagraffau 51-59.

40. Rwy'n cwrdd â'r Gweinidog Addysg yn rheolaidd i drafod y synergeddau a'r gorgyffwrdd rhwng ein portffolios mewn perthynas â'r Gymraeg.

**Carreg filltir**: **cynnydd bychan yn y teuluoedd sy'n trosglwyddo'r Gymraeg erbyn Cyfrifiad 2021, gan barhau â'r patrwm a welwyd rhwng 2001 a 2011**

41. I gefnogi'r nod hwn, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y rhaglen Cymraeg i Blant yn 2021-22 ac mae £0.730 miliwn o gyllid wedi'i ddyrannu i hyn. Nod y rhaglen yw cefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref a throsglwyddo'r iaith i'w plant, ac i gefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol.

42. Bydd Cymraeg i Blant yn cefnogi'r polisi cenedlaethol newydd ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd (gweler paragraff 25). Mae annog teuluoedd i ddewis y Gymraeg yn rhan bwysig o *Cymraeg 2050* ac mae'r polisi hwn yn amlinellu sut rydym yn bwriadu sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael y gefnogaeth a'r anogaeth orau bosibl i ddewis defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.

**Carreg filltir: Cadw llygad agos ar y dangosyddion defnydd iaith sy'n gysylltiedig â'r targed cychwynnol o gynyddu cyfraddau'r bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd o 10 y cant o'r boblogaeth i 11 y cant erbyn 2021**

43. Yn y pen draw, nod yr holl ymyriadau yn fy mhortffolio i, ac felly'r holl ddyraniadau cyllideb cyfatebol, yw cynyddu defnydd o'r iaith, a chânt eu gwerthuso a'u monitro i sicrhau eu bod yn addas at y diben hwn. Mae hyn yn wir am BEL y Gymraeg (2021-22: £20.949m) a BEL Comisiynydd y Gymraeg (2021-22: £3.237m, refeniw £3.207m a chyfalaf £0.030m). O dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, yn ogystal â rheoleiddio'r safonau, mae gan y Comisiynydd rôl i gynyddu defnydd o'r iaith. Mae'r cyllidebau refeniw hyn wedi'u cynnal ar gyfer 2021-22.

44. Ymhlith y prosiectau a'r partneriaid a ariennir o dan BEL y Gymraeg i gynyddu'r defnydd o'r iaith mae:

- Y mentrau iaith.
- Yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Yr Urdd.
- Clybiau Ffermwyr Ifanc.
- Prosiectau cymunedol (Cymdeithas Eisteddfodau a Merched y Wawr).
- Y papurau bro.
- Helo Blod.
- Prosiect ARFer Prifysgol Bangor, i gynyddu cyfathrebu rhyngbersonol a hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy addunedau ymddygiadol.
- Cronfa i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector ôl-16.
- Cronfa a ddyrannwyd i Gonsortia Addysg Cymru i hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg (Siarter Iaith).

- Cymraeg i Blant.
- Dydd Miwsig Cymru.

45. Er bod COVID-19 wedi newid ein bywydau, ac wedi bod yn gyfnod gofidus inni i gyd, mae'n galonogol iawn gweld sut mae pobl wedi ymateb i'r her. Mae'r arloesedd, y dyfalbarhad a'r creadigrwydd a ddangoswyd gan ein partneriaid wedi creu argraff fawr arnaf. Roedd Eisteddfod T ac Eisteddfod AmGen yn hynod lwyddiannus, fe wnaeth y Ffermwyr Ifanc a Merched y Wawr waith gwirfoddol rhagorol a chynhaliwyd pob math o ddigwyddiadau diddorol ar-lein gan y mentrau iaith. Rydym wedi gweld mwy o ddysgwyr na'r tair blynedd diwethaf gyda'i gilydd, yn cofrestru ar gyfer cyrsiau blasu ar-lein y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ers mis Mawrth eleni. Mae hyn i gyd yn dangos y gwaith pwysig y mae ein partneriaid wedi bod yn ei wneud, o ran gyrru polisïau Cymraeg a chyflawni nodau *Cymraeg 2050* yn ystod y cyfnod anodd hwn.

46. Bydd llawer o'r gwaith newydd ac arloesol a wneir yn dod yn rhan o'n ffordd newydd o weithio yn 2021-22 a thu hwnt. Byddwn yn parhau i gefnogi ein partneriaid wrth inni addasu'n barhaus i'r byd newydd cyfnewidiol hwn.

47. Cynhaliodd un o is-grwpiau Cyngor Partneriaeth y Gymraeg (yr is-grŵp Cynyddu Defnydd y Gymraeg yn y Gymuned) arolwg ar-lein o grwpiau cymunedol Cymraeg rhwng 14 Medi a 10 Hydref 2020. Y nod oedd asesu effaith y cyfyngiadau a osodwyd gan COVID-19 ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Cawsom 1,092 o ymatebion.

48. Ar 10 Rhagfyr, fe wnaethom gyhoeddi *Effeithiau COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg – canfyddiadau'r arolwg*. Llywiwyd hyn gan is-grŵp penodedig o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg sydd wedi drafftio cyfres o argymhellion yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adroddiad. Byddaf yn ymateb i'r argymhellion hyn cyn bo hir.

49. Mae'r adroddiad yn darparu tystiolaeth o sut roedd grwpiau cymunedol Cymraeg yn gweithredu cyn i COVID-19 daro ac yna ers y cyfnod clo cyntaf a gyflwynwyd ar lefel y DU gyfan ac mae'n cyflwyno eu barn am eu dyfodol. Bydd gweithredu'r argymhellion yn ein helpu i ddiogelu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel gymunedol yn y dyfodol. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn 2021-22.

50. Mae'n anodd iawn mesur defnydd iaith. Un ffordd yw cynnal arolygon o ddefnydd iaith. Dechreuodd y gwaith ar Arolwg Defnydd Iaith newydd ym mis Gorffennaf 2019, ac roedd i fod i barhau tan ddiwedd mis Mawrth 2021. Oherwydd COVID-19, gohiriwyd yr arolwg ganol mis Mawrth 2020. Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau a gasglwyd hyd yma erbyn diwedd 2020-21.

## Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) ym mhortffolio'r Gweinidog Addysg i gefnogi Cymraeg 2050 ac yn benodol, dyraniadau sy'n cefnogi ac yn datblygu addysg cyfrwng Cymraeg.

51. Daw'r dyraniadau ar gyfer y gweithgareddau ym mhortffolio'r Gweinidog Addysg, sy'n cefnogi *Cymraeg 2050*, o fewn BEL y Gymraeg mewn Addysg,

yn y MEG Addysg. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 20, mae'r gyllideb yn £12.675m ar gyfer 2021-22.

52. Ymhlith y gweithgareddau a ariennir o BEL y Gymraeg mewn Addysg mae datblygu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog y blynyddoedd cynnar, datblygu a gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), cefnogaeth i golegau AB a hyfforddiant i alluogi tiwtoriaid ac aseswyr i addysgu a hyfforddi dysgwyr yn ddwyieithog, cefnogi datblygiad darpariaeth AU Cymraeg ac arwain ar ddatblygiad ôl-16. Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys datblygu adnoddau dysgu ac addysgu i gefnogi addysgu'r Gymraeg a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag adnoddau dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

53. *Mae Cymraeg 2050* yn bolisi trawsbynciol ac fe'i cefnogir nid yn unig drwy BEL y Gymraeg a BEL y Gymraeg mewn Addysg. Er enghraifft, cefnogir y Cynllun Sabothol a CYDAG drwy gyllid o £1.65m o fewn y BEL Datblygu a Chymorth Athrawon y MEG Addysg. Mae CYDAG yn cynnal rhaglen o weithgareddau i gefnogi gwaith i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg i gefnogi'r *Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg*. Mae gan Gynllun Sabothol y Gymraeg rôl ganolog wrth barhau i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae £1m ychwanegol hefyd wedi'i ddyrannu i'r BEL Cwricwlwm ac Asesu yn 2021-22 ar gyfer adnoddau dwyieithog i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru newydd ym mis Medi 2022.

**Carreg filltir: Cefnogi'r gwaith o ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar i 40 yn fwy o grwpiau meithrin erbyn 2021**

54. Mae'r £3.031m a ddarparwyd i Mudiad Meithrin wedi ei alluogi i gefnogi'r 450 a mwy o Gylchoedd Meithrin a dros 400 o Gylchoedd Ti a Fi sy'n aelodau ohono er mwyn cryfhau ac ehangu ei wasanaethau. Mae hefyd wedi ei alluogi i barhau â rhaglen sy'n canolbwyntio'n llwyr ar sefydlu darpariaeth blynyddoedd cynnar Cymraeg newydd mewn ardaloedd yng Nghymru lle mae diffyg gwasanaethau o'r fath ar hyn o bryd fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Drwy'r gwaith hwn, mae 21 o Gylchoedd Meithrin newydd a 21 o Gylchoedd Ti a Fi newydd wedi'u sefydlu ers 2018. Mae'r gwaith i ddatblygu staff a gwirfoddolwyr yn lleoliadau ei aelodau hefyd wedi parhau, ac eleni mae wedi cynnwys sesiynau wedi'u teilwra i ymateb i'r heriau y mae'r sector blynyddoedd cynnar wedi'u hwynebu eleni. Bydd y gyllideb hon yn cael ei chynnal yn 2021-22 a bydd Mudiad Meithrin yn parhau i ddatblygu capasti blynyddoedd cynnar er mwyn darparu llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg.

**Carreg filltir: Parhau i gynyddu canran y dysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 24 y cant (tua 8,400) erbyn 2021.**

55. Rydym wedi dyrannu cyllid o £0.1m o BEL y Gymraeg mewn Addysg i gefnogi gwaith ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). O dan y ffrwd waith hon, paratowyd *Rheoliadau Drafft Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019* newydd ac fe'u gosodwyd gerbron y Senedd ar 5

Rhagfyr 2019 yn nodi trefniadau newydd ar gyfer paratoi a gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd darpariaethau newydd yn cynnwys cyflwyno Cynlluniau tymor hwy (10 mlynedd) yn ogystal â Chynlluniau sy'n cael eu paratoi ar sail targedau clir, uchelgeisiol. Mae'r targedau hyn wedi'u cyfrifo mewn ffordd sy'n dangos y cyfraniad y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei wneud er mwyn cefnogi'r targedau cerrig milltir yn ymwneud ag addysg yn strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru. Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 1 Rhagfyr 2020.

56. At hynny, fe wnaethom gwblhau adolygiad o gategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mis Rhagfyr 2019, yn unol ag argymhellion a wnaed gan y Bwrdd Cynghori CSCA ym mis Mai 2019. Lansiodd y Gweinidog Addysg ymgynghoriad ar opsiynau lefel uchel i ailddiffinio categorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar 14 Rhagfyr. Gallai hyn arwain at adolygu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a chanllawiau newydd o bosibl o amgylch categorïau ysgolion. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd y garreg filltir gyffredinol ar gyfer 2021 o 24% o ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

57. Bydd ein hymdrechion yn 2021-22 yn canolbwyntio ar gefnogi awdurdodau lleol i baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd. Bydd hyn yn cynnwys:

- Cyngor ac arweiniad ynghylch cyfathrebu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys pecyn o adnoddau digidol i ALlau eu defnyddio).
- Caffael ymgynghorwyr iaith ac addysg Gymraeg i gynghori ALlau ar agweddau ar weithredu CSCA, megis symud ymlaen o ysgol gynradd Gymraeg a gwaith ar gategoreiddio ysgolion.

58. **Carreg filltir: cefnogi twf yn nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2021 fel a ganlyn:**

- 3,100 o athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (o linell sylfaen o 2,900 yn 2015/16).
- 600 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg (o linell sylfaen o 500 yn 2015/16).
- 2,200 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (o linell sylfaen o 1,800 yn 2015/16).

59. Mae *Y Gymraeg mewn Addysg: cynllun gweithredu ar gyfer 2017-2021*, a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2017, yn pennu ein cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg orfodol cyfrwng Gymraeg ac addysg Iaith Gymraeg dros y pedair blynedd nesaf, yn unol â'r weledigaeth yn *Cymraeg 2050* a *Cenhadaeth ein Cenedl.* Mae'r Gweinidog Addysg yn arwain ar weithredu mewn ymateb i'r blaenoriaethau addysg a nodwyd yn y cynllun gweithredu, er enghraifft cynyddu nifer yr athrawon, datblygu'r cwricwlwm a chymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y MEG Addysg yn parhau i ddarparu cymorth ar gyfer y gweithgareddau hyn yn 2021-22. Yn ddiweddar, cyhoeddais ffigurau mewn

perthynas â chynnydd yn erbyn y targed hwn yn Adroddiad Blynyddol 2019-20 *Cymraeg 2050*.

## Rhan 3: Meysydd penodol

### *Diweddariadau ar ddyraniadau yn y gyllideb ar gyfer 2020-21*

### Diweddariad ar ddyraniad cyllideb y Ganolfan Dysgu Cymraeg yn dilyn gostyngiad yn ei chyllideb mewn ymateb i'r pandemig

60. Dyrannwyd cyfanswm o £13.21m o BEL y Gymraeg i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2020-21. Rhannwyd y dyraniad hwn fel a ganlyn: £8.810m i ariannu'r 11 darparwr sy'n cyflwyno'r cyrsiau hyfforddi, £2.5m ar gyfer Cymraeg Gwaith ac £1.9m i gynnal costau rhedeg y Ganolfan.

61. Yn ystod y flwyddyn, oherwydd COVID-19, cafodd cyfanswm cyllid y Ganolfan ei ostwng £1.533m: roedd £1.02m o'r gostyngiad hwnnw yn ostyngiad i gyllideb Cymraeg Gwaith, gan ostwng ei chyllideb i £1.48m; tynnwyd £0.337m o'r grant i'r 11 darparwr, gan ostwng eu cyllid i £8.473m; a gostyngwyd grant canolog y Ganolfan £0.176m, gan adael cyllideb o £1.724m. Roedd rhai o'r toriadau hyn yn bosibl am nad oedd y Ganolfan a'i darparwyr yn gallu parhau i gynnig rhai elfennau o'u darpariaeth, megis dysgu wyneb yn wyneb a chyrsiau preswyl.

62. Oherwydd ymateb cyflym a phroffesiynol y Ganolfan i'r pandemig, fe wnaethant ddefnyddio'r cyllid i barhau i gynnig cyfleoedd i unigolion ddysgu Cymraeg a datblygu eu hyder wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynnig ystod eang o gyfleoedd ar draws pum lefel i ddysgwyr ledled Cymru drwy rwydwaith y Ganolfan o 11 darparwr.
- Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys S4C, BBC Radio Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru, i gryfhau'r cymorth i ddysgwyr.
- Parhau i ddarparu Cymraeg Gwaith, gan gynnig hyfforddiant wedi'i deilwra i feithrin sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

63. Dyraniad y Ganolfan ar gyfer 2021-22 fydd £13.01m. Felly rydym wedi adfer cyllideb y Ganolfan i'r lefel cyn COVID-19 (cyllideb derfynol 2020-21) ac eithrio £0.2m. Ailgyfeiriwyd y £0.2m hwn i ariannu prosiectau seilwaith ieithyddol Cymraeg a fydd yn cynnwys creu polisi i gydgysylltu'n well adnoddau terminoleg, geiriaduron a chorpws er mwyn cryfhau'r seilwaith sy'n cefnog defnydd or iaith.

64. Cyflawnwyd hyn drwy leihau cyfanswm y grant i'r 11 darparwr o £0.150m i £8.660m a lleihau'r grant a delir i ariannu costau rhedeg y Ganolfan o £0.05m i £1.85m. Bu hyn yn bosibl oherwydd arbedion gweithredol yn sgil y ffaith nad oedd gwersi wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal, ac oherwydd bod y Ganolfan yn datblygu gwahanol ffyrdd o weithio yn ystod yr argyfwng COVID-19. Ni fydd y gostyngiad hwn mewn cyllid yn effeithio ar lefelau gwasanaeth i ddysgwyr ac ni fydd yn arwain at golli swyddi yn y sector.

65. Mae cyllid Cymraeg Gwaith wedi cael ei adfer yn llawn i £2.5m er mwyn caniatáu i'r fenter bwysig honno ddychwelyd i'w chapasiti llawn ac er mwyn gwella'r cymorth y gall ei roi i sectorau penodol.

**Y cynnydd a'r defnydd o'r £30 miliwn sydd ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf i gefnogi a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg, ac effaith y pandemig ar yr amserlen ar gyfer prosiectau cymeradwy**

66. Er mwyn cefnogi'r garreg filltir o gynyddu canran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg, rydym yn bwrw ymlaen â'r broses o gyflawni prosiectau cyfalaf a ariennir drwy'r Gronfa gyfunol Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg a Grant Gofal Plant o £46m a gyhoeddwyd yn ystod 2018-2019 (£32.81m o Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg a £13.02m o'r Grant Cyfalaf Blynyddoedd Cynnar). Mae'r chwistrelliad hwn o arian grant yn cefnogi 46 o brosiectau ar draws 20 awdurdod lleol a fydd, pan fydd pob prosiect yn cael ei wireddu, yn arwain at 2,818 o leoedd ysgol a gofal plant ychwanegol i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd yr hwb hwn mewn cyllid yn mynd gam o'r ffordd tuag at gefnogi'r cynnydd yn y ddarpariaeth sydd ei hangen i ymateb i uchelgais *Cymraeg 2050*.

67. Bydd y prosiectau hyn yn rhoi hwb i'r Gymraeg yn yr ardaloedd dan sylw. Er enghraifft:

- Trydedd ysgol cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy.
- Ysgolion cynradd Cymraeg newydd ym Merthyr Tudful a Thorfaen (wedi'u cysylltu ag ysgol uwchradd).
- Ehangu'r ddarpariaeth gynradd Gymraeg bresennol i ymdopi â'r galw, e.e. Wrecsam, Sir y Fflint, Caerdydd, Castell-nedd Port Talbot a Chaerffili.
- Darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg i gefnogi caffael iaith yn gynnar a denu rhagor o ddysgwyr i'r sector cyfrwng Cymraeg, e.e. Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Chonwy.
- Canolfan iaith arloesol yn Sir Ddinbych yn gysylltiedig â darpariaeth gofal plant a chymorth i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith.
- Cymorth i ganolfannau sy'n gweithio gyda hwyrddyfodiaid yng Ngwynedd a Sir Gaerfyrddin.
- Adnewyddu ac ailfodelu pedwar o leoliadau'r Urdd yng Nglan-llyn, Llangrannog a Phentre Ifan.

68. Mae'r pandemig wedi cael rhywfaint o effaith ar gyflawni prosiectau gyda dyddiadau cwblhau rhai prosiectau yn cael eu symud ymlaen i 2022. Fodd bynnag, mae mwyafrif y 46 o brosiectau wedi hen gychwyn, gydag wyth prosiect eisoes wedi'u cwblhau, a hawliwyd dros £16.1m hyd yn hyn.

69. Agorodd y Gweinidog Addysg Neuadd Breswyl Pantycelyn yn swyddogol ar 18 Medi a chroesawu myfyrwyr newydd iddi, ac edrychwn ymlaen at agoriad swyddogol Glan-llyn Isa yn y Flwyddyn Newydd. Mae prosiect Ysgol y Wern yng Nghaerdydd a Chanolfan Iaith Sir Ddinbych yn Ysgol Glan Clwyd hefyd wedi'u cwblhau. Mae darpariaeth feithrin Gymraeg hefyd wedi'i chyflwyno mewn tri

lleoliad yn Rhondda Cynon Taf ac un yn Nhorfaen. Rydym yn disgwyl y bydd mwyafrif y prosiectau wedi'u cwblhau erbyn 2021/22.

## Y niferoedd sydd wedi manteisio ar y cymhelliant ariannol *Iaith Athrawon Yfory*, a pha faint sydd wedi'i neilltuo ar gyfer parhad y cymhelliant hwn

70. Rydym yn parhau i ddarparu cymhellion i athrawon dan hyfforddiant o Gymru sy'n ymgymryd ag Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) ac mae'r Gweinidog Addysg wedi cynnal y taliad cymhelliant Iaith Athrawon Yfory o £5,000 i bob myfyriwr sy'n mynd ymlaen i addysgu yn Gymraeg. O roi hyn ochr yn ochr â chymhellion eraill ar gyfer athrawon pynciau sy'n flaenoriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, mae hyn yn golygu y gallai myfyriwr AGA cymwys elwa o gyfanswm o dros £25,000 o gymhelliannau ym mlynyddoedd academaidd 2020/21 a 2021/22.

71. Mae taliad cymhelliant cyfrwng Cymraeg Iaith Athrawon Yfory (IAY)[3] o £5,000 wedi'i strwythuro fel a ganlyn; £2,500 sy'n daladwy ar ôl cwblhau Statws Athro Cymwysedig yn llwyddiannus yn nhymor yr haf a £2,500 arall sy'n daladwy ar ôl cwblhau'r cyfnod sefydlu yn llwyddiannus mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, neu ar ôl cwblhau cyfnod sefydlu llwyddiannus yn addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd (o fewn cyfnod penodol o amser). Dim ond y myfyrwyr hynny sy'n hawlio'r taliad cyntaf o dan y cynllun all hawlio'r ail daliad o dan y cynllun.

72. Pan lansiwyd y cynllun gyntaf yn 2018, fe wnaethom osod targed uchelgeisiol i'n hunain sef 100 o ymgeiswyr gyda dyraniad cyllideb o £0.5m. Mae hyn yn parhau.

    - **Blwyddyn academaidd 2018/19** – Y dyddiad cau ar gyfer hawlio'r taliad cyntaf oedd 31 Awst 2020 gyda chyfanswm o 59 o fyfyrwyr cymwys yn hawlio. Y dyddiad cau ar gyfer hawlio'r ail daliad fydd 31 Awst 2023; hyd yma mae 38 o blith y 59 o fyfyrwyr cymwys wedi hawlio.
    - **Blwyddyn academaidd 2019/20** – Y dyddiad cau ar gyfer hawlio'r taliad cyntaf oedd 31 Awst 2021 gyda chyfanswm o 59 o fyfyrwyr cymwys yn hawlio hyd yma. Y dyddiad cau ar gyfer hawlio'r ail daliad fydd 31 Awst 2024; oherwydd yr adeg o'r flwyddyn, nid oes unrhyw hawliadau wedi'u gwneud hyd yma ar gyfer yr ail daliad.
    - **Blwyddyn academaidd 2020/21** – Oherwydd yr adeg o'r flwyddyn, ni wnaed unrhyw hawliadau na thaliadau eto yn erbyn Cynllun 2020/21.

## Manylion unrhyw asesiadau a gynhaliwyd sy'n ymwneud â chyllid gyda'r nod o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch ac yn y brifysgol

73. Ym mis Mai 2019, cytunodd y Gweinidog Addysg i ddyrannu £0.145m o'r BEL Codi Safonau Ysgolion yn 2019-20 a 2020-21 i gefnogi rhaglen o weithgareddau gyda'r nod o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg

[3] Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory blwyddyn academaidd 2019 i 2020 | LLYW.CYMRU

Safon Uwch er mwyn cynyddu'r nifer sy'n parhau i astudio'r Gymraeg yn y brifysgol.

74. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20, derbyniodd 62 o ysgolion a cholegau grant rhwng £800 a £1,500 i gefnogi gweithgareddau er mwyn gwella profiadau dysgu Cymraeg, ac i gefnogi cost cynnal darpariaeth mewn lleoliadau lle roedd y niferoedd sy'n astudio'r pwnc yn isel. Oherwydd COVID-19, roedd yn rhaid i rai ysgolion addasu eu cynlluniau gwreiddiol. Rydym wrthi'n dyfarnu grantiau tebyg ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.

75. Yn ogystal, datblygwyd adnoddau i ysgolion eu defnyddio mewn nosweithiau rhieni er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch, a lansiwyd ymgyrch farchnata ym mis Tachwedd 2020. Roedd hyn i fod i ddechrau ym mis Mawrth 2020, ond bu’n rhaid ei ohirio oherwydd COVID-19.

76. Drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae dau brosiect wedi'u hariannu a'u cyflawni gan adrannau prifysgolion Cymru:
    - Rhaglen beilot i fentora dysgwyr 14-18 oed mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg i roi cyfle i fyfyrwyr israddedig Cymraeg gefnogi dysgwyr wrth iddynt astudio'r iaith.
    - Modiwl ar-lein ar sut y gall sgiliau Cymraeg fod yn amhrisiadwy yn y gweithle.

77. Fe wnaeth COVID-19 amharu ar y gwaith hwn, felly mae'n rhy gynnar i asesu impact y cyllid. Fodd bynnag, bydd gwerthusiad o'r gwaith a wnaed hyd yma yn cael ei gomisiynu maes o law i lywio datblygiadau yn y dyfodol.

***Comisiynydd y Gymraeg***

**<u>Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â dyraniad y gyllideb ar gyfer Comisiynydd Cymraeg yn 2021-22</u>**

78. Dyraniad adnoddau Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2021-22 yw £3.323m, gan gynnal y cyllid refeniw ar £3.207m a darparu cyllideb dibrisiant nad yw’n arian parod o £0.116m yn dilyn y buddsoddiad yn y system TG newydd yn 2020-21.

79. Yn 2020-21, gwnaed dyraniad cyfalaf ychwanegol o £0.385m i gefnogi gwaith uwchraddio hanfodol i'r system TG. O ganlyniad i'r buddsoddiad blaenorol hwn, byddwn yn darparu buddsoddiad cyfalaf ychwanegol o £0.030m yn ystod 2021-22. Bwriad y Comisiynydd yw defnyddio'r cyfalaf hwn i uwchraddio'r wefan, gan ei symud i blatfform mwy modern a diweddaru ei delwedd, y strwythur a'r cynnwys.

## Atodiad A

**MEG IECHYD MEDDWL, LLESIANT A'R GYMRAEG**

**REFENIW**

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r BEL | 2019-20 Alldro Terfynol | 2020-21 Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2020-21 | 2020-21 Newidiadau | 2020-21 Y Gyllideb Atodol 1af | 2020-21 Newidiadau | 2020-21 Yr 2il Gyllideb Atodol | 2020-21 Rhagolwg (Cyfnod 8) | 2021-22 Llinell Sylfaen | 2021-22 Newidiadau | 2021-22 Cyllideb ddrafft ar gyfer cynlluniau newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymraeg | Y Gymraeg | 20,992 | 20,949 | -1,595 | 19,354 | 0 | 19,354 | 19,536 | 20,949 | 0 | 20,949 |
| | Comisiynydd y Gymraeg | 3,157 | 3,207 | 0 | 3,207 | | 3,207 | 3,268 | 3,207 | 116 | 3,323 |
| **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | | **24,148** | **24,156** | **-1,595** | **22,561** | **0** | **22,561** | **22,804** | **24,156** | **116** | **24,272** |

**CYFALAF**

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r BEL | 2019-20 Alldro Terfynol | 2020-21 Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2020-21 | 2020-21 Newidiadau | 2020-21 Y Gyllideb Atodol 1af | 2020-21 Newidiadau | 2020-21 Yr 2il Gyllideb Atodol | 2020-21 Rhagolwg (Cyfnod 8) | 2021-22 Llinell Sylfaen | 2021-22 Newidiadau | 2021-22 Cyllideb ddrafft ar gyfer cynlluniau newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg | 0 | 385 | 0 | 385 | 0 | 385 | 385 | 0 | 30 | 30 |
| **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | | **0** | **385** | **0** | **385** | **0** | **385** | **385** | **0** | **30** | **30** |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM MEG IECHYD MEDDWL, LLESIANT A'R GYMRAEG** | **24,148** | **24,541** | **-1,595** | **22,946** | **0** | **22,946** | **23,189** | **24,156** | **146** | **24,302** |

**MEG ADDYSG**

**REFENIW**

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r BEL | 2019-20 Alldro Terfynol | 2020-21 Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol | 2020-21 Newidiadau | 2020-21 Y Gyllideb Atodol 1af | 2020-21 Newidia--dau | 2020-21 Yr 2il Gyllideb Atodol | 2020-21 Rhagolwg (Cyfnod 8) | 2021-22 Llinell Sylfaen | 2021-22 Newidiadau | 2021-22 Cyllideb ddrafft ar gyfer cynlluniau newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | 2020-21 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymraeg mewn Addysg | Y Gymraeg mewn Addysg | 12,369 | 12,675 | -350 | 12,325 | 0 | 12,325 | 12,325 | 12,675 | 0 | 12,675 |
| **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | | **12,369** | **12,675** | **-350** | **12,325** | **0** | **12,325** | **12,325** | **12,675** | **0** | **12,675** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gymraeg** | | **36,517** | **37,216** | **-1,945** | **35,271** | **0** | **35,271** | **35,514** | **36,831** | **146** | **36,977** |

Elin Jones AS, Llywydd
Senedd Cymru
Elin Jones MS, Presiding Officer
Welsh Parliament

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ein cyf: EJ/AJ

8 Rhagfyr 2020

Annwyl Helen Mary,

Rwyf wedi dilyn â chryn ddiddordeb gwaith y Pwyllgor ar effaith COVID ar newyddiaduriaeth.

Fe'm trawyd gan faint y problemau a ddaeth i'r amlwg yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor, a'i waith blaenorol yn y maes hwn. Un o flaenoriaethau strategol y Comisiwn yw ymgysylltu â holl bobl Cymru ac rwyf wedi meddwl cryn dipyn am ffyrdd ymarferol i'r Senedd wneud gwahaniaeth.

<u>Y sefyllfa gyfreithiol</u>

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) yn darparu ar gyfer caniatáu i Gomisiwn y Senedd wneud unrhyw beth sy'n ymddangos yn angenrheidiol neu'n briodol at ddibenion, neu'n gysylltiedig â, chyflawni ei swyddogaethau. Mae Deddf 2006 hefyd yn dweud bod yn rhaid i'r Comisiwn ddarparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Senedd.

Mae cyfryngau cryf ac annibynnol yn hanfodol i unrhyw ddemocratiaeth. Er gwaethaf ymdrechion newyddiadurwyr sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd, rydym wedi dioddef ers tro byd oherwydd diffyg lluosogrwydd y cyfryngau, ac mae'r sefyllfa'n gwaethygu oherwydd y problemau economaidd presennol.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
llywydd@senedd.cymru
0300 200 7403

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
llywydd@senedd.wales
0300 200 7403

Un o brif amcanion yr Aelodau a'r Comisiwn yw hyrwyddo gwaith y Senedd a dwyn y llywodraeth i gyfrif ar ran pobl Cymru. Rwy'n credu ei bod yn ddilys dadlau bod cefnogi newyddiaduriaeth yng Nghymru yn rhan o'r amcan hwn.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion ymchwilio i'r opsiynau ymarferol a fyddai'n rhoi cyfle i Gomisiwn y Senedd gyflawni ei amcanion a helpu i gefnogi newyddiaduriaeth annibynnol yng Nghymru.

Byddai angen cymorth y Comisiynwyr ac Aelodau ar draws y Senedd, wrth gwrs, i roi unrhyw drefniadau tebyg ar waith.

Mae'n werth nodi bod y Comisiynwyr wedi cytuno i sefydlu cynllun peilot ar gyfer gwasanaeth gwifren newyddion hyd braich annibynnol ym mis Rhagfyr 2017, a hynny'n dilyn argymhellion y Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol, dan gadeiryddiaeth Leighton Andrews, y cyn Weinidog.

Yn y cyfamser, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am y gwaith y mae wedi'i wneud, ac y mae'n parhau i'w wneud, i dynnu sylw at y mater hwn sy'n bwysig i bob un ohonom.

Yn gywir,

**Elin Jones AS**
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**BBC Cymru Wales**
3 Central Square, Cardiff CF10 1FT
3 Sgwâr Canolog, Caerdydd CF10 1FT
**T:** 029 2071 4000 | **E:** cardiff.reception@bbc.co.uk | **W:** bbc.co.uk/wales

Director Wales
Cyfarwyddwr Cymru

8 Rhagfyr 2020

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant Cyfathrebu a'r Gymraeg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl Helen,

Yn gyntaf, diolch am y drafodaeth adeiladol a gafwyd yn ddiweddar ynglŷn â nifer o faterion darlledu. Gobeithio i hynny fod yn ddefnyddiol.

Yn ystod ein sgwrs, fe wnes i addo ysgrifennu atoch yn nodi'r sefyllfa ffeithiol o ran y broses o adnewyddu Ffi'r Drwydded yn ogystal â rhai pwyntiau allweddol ynglŷn ag Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

Rwy'n nodi isod, felly, rai o'r pwyntiau allweddol a allai fod yn ddefnyddiol i'ch pwyllgor fel gwybodaeth gefndir yn ystod eich trafodaethau yn ystod y misoedd nesaf. Gobeithio y bydd o fudd i chi.

**1. Proses Setliad Ffi'r Drwydded**

- Ar 10 Tachwedd, dechreuodd Ysgrifennydd Diwylliant Llywodraeth y DU y broses ffurfiol o gytuno ar lefel ffi'r drwydded deledu o 2022.

- Bydd y trafodaethau yn penderfynu faint fydd cost trwydded deledu, ac o ganlyniad, faint o arian cyhoeddus y bydd y BBC a S4C yn ei gael, am bum mlynedd o leiaf, o Ebrill 2022.

- Mae'r Ysgrifennydd Diwylliant Oliver Dowden wedi gofyn i'r BBC amlinellu ei hanghenion ariannol yn unol â'i dibenion cyhoeddus er mwyn llywio'r asesiad o'r lefel briodol ar gyfer ffi'r drwydded, ac i sicrhau ei fod yn cynnig y gwerth gorau am arian i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded.

- Mae’r DCMS wedi’i gwneud yn glir bod disgwyl i’r trafodaethau ddirwyn i ben erbyn hydref 2021 i ganiatáu amser i'r newidiadau angenrheidiol gael eu gosod gerbron Senedd y DU a'u hymgorffori yng nghyllideb y BBC ar gyfer 2022/23.

- O ran proses, mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei fod wedi ymrwymo i dryloywder yn ystod y broses ac amserlen y trafodaethau gyda'r BBC ar setliad ffi’r drwydded.

- Mae model ffi’r drwydded wedi’i warantu nes diwedd cyfnod Siartr y BBC yn 2027.

- Dywedodd Llywodraeth y DU ei fod yn parhau i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus o ran a yw'r sancsiwn troseddol yn parhau i fod yn briodol ar gyfer peidio â thalu ffi’r drwydded. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan y bydd yn cyhoeddi ymateb maes o law.

- Mae’r BBC wedi croesawu proses setliad ffi’r drwydded fel cyfle i amlinellu gweledigaeth gyffrous y BBC ar gyfer ail hanner cyfnod y Siartr. Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau bod y broses yn cael ei chynnal mewn ffordd agored a thryloyw.

- Mae’r BBC wedi dweud mai’r man cychwyn ar gyfer y broses hon fydd ei hymrwymiad i gyffredinolrwydd (*universality*) a bydd yn defnyddio'r misoedd nesaf i ddangos sut mae'n bwriadu parhau i ddarparu rhaglenni a gwasanaethau gwych i bawb. Mae cyfraniad y BBC i adlewyrchu’r DU, yn ogystal â chefnogi’r economïau creadigol y tu hwnt i Lundain, hefyd yn themâu canolog. I gloi, bydd y BBC hefyd yn amlinellu ble gallai buddsoddiad ychwanegol sicrhau ein bod yn darparu buddion pellach i’r rhai sy’n talu ffi’r drwydded.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach, gan gynnwys y llythyron rhwng y DCMS a’r BBC fan hyn:
[https://www.gov.uk/government/publications/letters-from-the-culture-secretary-to-the-bbc-and-s4c-on-the-2022-licence-fee-settlement](https://www.gov.uk/government/publications/letters-from-the-culture-secretary-to-the-bbc-and-s4c-on-the-2022-licence-fee-settlement)

## 2. Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus

Fel y gwyddoch, mae Ofcom wrthi yn adolygu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU.

Mae cylch gwaith adolygiad y rheoleiddiwr yn ystyried sut gallai canlyniadau cadarnhaol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus gael eu sicrhau ar gyfer cynulleidfaoedd y dyfodol, o fewn y fframwaith deddfwriaethol cyfredol, yn ogystal â sut i ail-ddychmygu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt.

Mae’r BBC wedi’i gwneud yn glir, er mwyn cynnal a gwella’r buddsoddiad yn nhirwedd cyfryngau unigryw y DU, bod angen i Ofcom:

1. Cefnogi BBC i bawb sydd wedi’i chyllido gan ffi’r drwydded. Mae ffi’r drwydded yn sail i gyffredinolrwydd a bod cynulleidfaoedd yn gwybod mai ffi’r drwydded sy’n ariannu’r BBC. Sicrhau hefyd mai cyllido sefydliad fel y BBC yw’r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o sicrhau buddsoddiad parhaus y sector cynhyrchu ledled y DU.

2. Argymell deddfwriaeth i sicrhau bod gwasanaethau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus fel BBC iPlayer yn cael eu cynnwys ac yn amlwg ar bob platfform o bwys.
3. Cydnabod bod angen i'r ffordd o reoleiddio'r BBC symud i'r oes ddigidol. Rydym hefyd yn credu y dylai Ofcom gael dyletswydd newydd i ystyried y gwerth cyhoeddus a grëir gan y BBC a Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus eraill.
4. I gloi, dylai Ofcom ddiweddaru'r drefn digwyddiadau rhestredig i gwmpasu dosbarthiad cynnwys ar blatfformau digidol.

I gloi, rwy'n deall bod fy nhîm mewn trafodaethau gydag ysgrifenyddiaeth eich pwyllgor am sesiwn graffu i edrych ar Adroddiad Blynyddol y BBC a materion cysylltiedig. Byddem, wrth gwrs, yn fwy na hapus i drafod materion sy'n gysylltiedig â Ffi'r Drwydded a'r Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus fel rhan o'r sesiwn.

Cofion cynnes,

**Rhodri Talfan Davies**

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Committee

11 Rhagfyr 2020

Annwyl Helen,

**EFFAITH COVID-19 AR Y DIWYDIANNAU CREADIGOL**

Yn y Ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar Effaith COVID-19 ar y Diwydiannau Creadigol ar 11 Tachwedd, cytunais i ysgrifennu atoch i ddarparu rhagor o wybodaeth am gwestiynau a godwyd yn ystod y drafodaeth. Nodir y wybodaeth hon isod:

*Gwersi a ddysgwyd o ddosbarthu arian grant i weithwyr llawrydd ar gyfer cyfrannau yn y dyfodol*

Mae'r gronfa lawrydd wedi cael derbyniad da gan randdeiliaid a bydd wedi cefnogi tua 3,500 o weithwyr llawrydd ledled Cymru ers ei lansio ym mis Hydref. Cyflwynwyd y gronfa drwy dri cham ar wahân a daeth i ben ar 7 Rhagfyr. Mae'r dull graddol o ddarparu wedi ein galluogi i ddysgu o gyfnodau cynharach a mabwysiadu dull ailadroddol o gyflawni.

Daeth yn amlwg ar ôl cyflawni cam un, er gwaethaf mesurau a gyflwynwyd i gefnogi dull cynhwysol o ddosbarthu cyllid, fod rhai o'r rhai nad oeddent yn gallu cael cymorth wedi teimlo yn rhwystredig oherwydd y broses. Gwnaethom ymateb i'r adborth hwn ac mewn camau cyflawni dilynol, rydym wedi:

- Cymryd camau i gynyddu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth ar gyfnodau ariannu, gan gynnwys amser agor, drwy wefan Busnes Cymru, sianeli cyfryngau cymdeithasol a mecanweithiau rhanddeiliaid awdurdodau lleol ac ehangach;
- Darparu cyfnodau ychwanegol i'r rhai â materion hygyrchedd i gofrestru diddordeb yn y cyllid cyn agor y camau'n ffurfiol;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Gweithio gyda Celfyddydau Anabledd Cymru i gynnal gweithdy cyn lansio cam tri ar gyfer gweithwyr llawrydd sydd angen cymorth ychwanegol i gael mynediad i'r gronfa;
- Cynyddu'r cyllid sydd ar gael i gefnogi gweithwyr llawrydd yng Nghymru £3.5m i gefnogi trydydd cam, gan godi cyfanswm y dyraniad i £10.5m;
- Diwygio'r dull o ddyrannu arian ar draws awdurdodau lleol ar gyfer y trydydd cam i ddarparu cyllid sy'n seiliedig yn gyfan gwbl ar y galw, gyda dyraniadau y cytunwyd arnynt gyda phob awdurdod lleol ar ddiwedd y cyfnod i dalu am y gyllideb a gyflawnwyd.

Roedd y bartneriaeth agos a sefydlwyd gyda rhanddeiliaid wrth gynllunio a chyflawni'r cynllun yn ein galluogi i wneud y newidiadau hyn yn gyflym ac yn effeithlon. Ymgysylltodd Llywodraeth Cymru yn rheolaidd ag undebau creadigol a diwylliannol, cynrychiolwyr o'r gymuned llawrydd a chyda'r awdurdodau lleol oedd yn darparu'r gronfa ar bob cam. Roedd hyn yn golygu dull o weithio gwirioneddol gydweithredol a oedd yn cynnig ystwythder a hyblygrwydd wrth addasu'r gronfa i ymateb i adborth a diwallu anghenion rhanddeiliaid.

Mae darparu'r gronfa hon wedi amlygu'r angen am wybodaeth feintiol am y gymuned lawrydd greadigol a diwylliannol yng Nghymru, gan gynnwys data ar nifer y gweithwyr llawrydd sy'n gweithredu yn y sectorau hyn yng Nghymru a'u gwerth i'r economi. Bydd gwerthuso'r gronfa llawrydd, sydd wedi'i gynnwys yn y gwerthusiad cyffredinol o'r Gronfa Adfer Diwylliannol, yn helpu i gasglu gwybodaeth ddefnyddiol am weithwyr llawrydd sy'n derbyn cyllid. Mae'r berthynas a ddatblygwyd gydag undebau creadigol a diwylliannol a chynrychiolwyr Tasglu Llawrydd Cymru hefyd wedi rhoi cyfle i ddechrau sgwrs ehangach ar gyfraniad gweithwyr llawrydd i economi, diwylliant a lles Cymru. Mae'r Gweithgor Adduned Llawrydd yn darparu ffocws pwysig ar gyfer y gwaith hwn.

*Gwybodaeth am yr hyn y gallai ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad Ofcom ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus ei gynnwys*

Mae pandemig COVID-19 wedi amlygu rôl allweddol darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus wrth wasanaethu cynulleidfaoedd a chefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Bydd ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad 'Sgrin Fach: Dadl Fawr' Ofcom ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn adlewyrchu'r angen i sicrhau y gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru barhau i ddarparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion dinasyddion Cymru ac yn cefnogi ein heconomi greadigol. Cyhoeddodd Ofcom ei ddogfen ymgynghori 'Sgrin Fach: Dadl Fawr' ar 8 Rhagfyr - https://www.smallscreenbigdebate.co.uk/cymru/consultation. Mae'r ddogfen yn nodi canfyddiadau adolygiad Ofcom ac yn ystyried sut y gellir cryfhau a chynnal darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn wyneb newid na welwyd ei debyg o'r blaen. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau, 16 Mawrth 2021.

*Yr wybodaeth ddiweddaraf am ailagor theatrau a lleoliadau celfyddydol eraill i'r cyhoedd a phryd y gallem ddisgwyl arweiniad Llywodraeth Cymru yn y maes hwn*

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau'r broses o ganiatáu i theatrau ailagor gyda chapasiti cyfyngedig. Diwygiwyd y Rheoliadau Coronafeirws Cenedlaethol yn dilyn y cyfnod atal byr diweddar ac mae canllawiau Llywodraeth Cymru wedi'u diwygio'n unol â hynny, gan ei gwneud yn glir, er bod yn rhaid i theatrau aros ar gau yn gyffredinol, y gellir eu defnyddio bellach i ddarlledu heb gynulleidfa yn bresennol ar y safle (boed dros y rhyngrwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu) ac i ymarfer ar gyfer darllediad o'r fath. Yng ngoleuni'r cyd-destun iechyd cyhoeddus ehangach, mae'n ofynnol i theatrau a neuaddau cyngerdd aros ar gau i'r cyhoedd ac mae ein rhaglen digwyddiadau prawf wedi'i gohirio.

Ar hyn o bryd, ni allwn ystyried awdurdodi presenoldeb cynulleidfaoedd mewn perfformiadau theatr. Rydym yn gweld theatrau a neuaddau cyngerdd yn rhan annatod o'n dull o brofi digwyddiadau, ac ni fyddant yn ailddechrau nawr tan fis Chwefror 2021 ar y cynharaf. Bydd swyddogion yn parhau mewn cysylltiad â'r sector er mwyn llywio ein cynlluniau ar gyfer ailddechrau digwyddiadau prawf. Ein disgwyliad yw na fydd digwyddiadau cyffredinol, gan gynnwys crynoadau mwy, yn ailddechrau tan y gwanwyn a bydd y Gronfa Adfer Ddiwylliannol gwerth £63m yn cefnogi'r sector ac yn sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor yn y cyfamser.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Dafydd Elis-Thomas
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Llywodraeth Cymru

**Dyddiad |** Date: 20 Hydref 2020

**Pwnc | Subject:** Cynllun Grant Gweithwyr Llawrydd y Gronfa Adferiad Diwylliannol

Annwyl Dafydd,

Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi cynnal gweithdy rhanddeiliaid gyda sector y celfyddydau, ac wedi edrych yn fanwl ar effaith barhaus pandemig y coronafeirws ar weithgareddau'r sector. Roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn o glywed am brofiadau rhanddeiliaid o wneud cais am gyllid o dan gynllun Grant Gweithwyr Llawrydd y Gronfa Adferiad Diwylliannol.

Clywodd y Pwyllgor fod yr arian hwn yn cael ei ddosbarthu gan awdurdodau lleol ar sail y cyntaf i'r felin, a bod llawer gormod o bobl wedi gwneud cais am y grant. O ganlyniad, roedd ymgeiswyr yn llai tebygol o gael cyllid os oedd eu hamgylchiadau yn eu hatal rhag gwneud cais ar-lein pan aeth y cronfeydd yn 'fyw' fel petai. Clywsom am bobl yn wynebu rhwystrau i wneud cais, er enghraifft cysylltiadau rhyngrwyd gwael, ymrwymiadau gofal plant a materion llythrennedd digidol. Clywsom hefyd nad oedd yn ymddangos bod y broses ymgeisio yn ystyried y gwahanol lefelau o angen ymhlith yr ymgeiswyr.

Mae'r pandemig wedi cael effaith anghymesur ar y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas. Rydym yn bryderus iawn o weld yr effaith hon yn cael ei gwaethygu wrth ddosbarthu cyllid a fwriadwyd i leddfu caledi economaidd mewn sector y mae'r argyfwng wedi'i daro mor galed. Codwyd y pryderon hyn yn y cyfryngau yn dilyn y rownd gyntaf o gyllid yn gynharach y mis hwn.

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech ddweud wrth y Pwyllgor:

- **A yw eich adran wedi rhoi canllawiau i awdurdodau lleol (sy'n dosbarthu cyllid y cynllun hwn) i adlewyrchu'r pryderon a godwyd ar ôl y cylch cyllido cyntaf?**
- **Pa gamau a gymerwyd i wella dosbarthiad teg yr ail rownd o gyllid cynllun Grant Gweithwyr Llawrydd y Gronfa Adferiad Diwylliannol?**
- **Sut yr asesir angen yr ymgeiswyr yn y broses o wneud cais? A yw hyn wedi gwella yn yr ail rownd ddosbarthu?**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

- **A fydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu maint cynllun Grant Gweithwyr Llawrydd y Gronfa Adferiad Diwylliannol i gydnabod graddfa'r galw? (ar 17 Medi dywedasoch wrth y Pwyllgor nad yw maint y Gronfa bresennol "yn ddigonol")**

Os nad yw eich adran wedi cymryd dim o'r camau a amlinellir uchod i wella dosbarthiad yr ail rownd, gofynnaf i chi wneud hynny ar frys.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu gwaith Llywodraeth Cymru o ran cefnogi diwylliant drwy'r pandemig, ac mae'n edrych ymlaen at barhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â chi ynghylch y materion hyn.

Yn gywir,

**Helen Mary Jones AS**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

15 Rhagfyr 2020

Annwyl Helen,

**CYNLLUN GRANT GWEITHWYR LLAWRYDD Y GRONFA ADFERIAD DIWYLLIANNOL**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Hydref yn gofyn am ragor o wybodaeth am gronfa gweithwyr llawrydd y Gronfa Adferiad Diwylliannol.

Lansiwyd y Gronfa Adferiad Diwylliannol gennym, sy'n werth £53 miliwn, ym mis Medi mewn ymateb i'r amgylchiadau eithriadol o anodd y mae'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Rydym yn ymwybodol o'r effaith y mae pandemig COVID-19 yn ei chael ar allu unigolion a gweithwyr llawrydd yn y sectorau hyn i ddod o hyd i waith. Neilltuwyd £7 miliwn o'r Gronfa i gefnogi gweithwyr llawrydd sydd wedi colli gwaith ond nad oeddent yn gymwys i gael cymorth ehangach, gan gynnwys cyllid gan Lywodraeth y DU. Cafodd y gronfa groeso cynnes gan randdeiliaid ac mae eisoes wedi cefnogi mwy na 2,000 o weithwyr llawrydd ledled Cymru, ac wedi gwneud taliadau iddynt. Mae fy swyddogion yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gadarnhau'r taliadau terfynol i weithwyr llawrydd a gefnogwyd yn ystod y ddau gam cyntaf.

Gweithiodd Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys undebau, awdurdodau lleol a gweithwyr llawrydd er mwyn cynllunio cronfa gweithwyr llawrydd y gellid ei gweithredu'n gyflym er mwyn rhoi cymorth i'r rheini yr oedd ei angen yn ddirfawr arnynt. Gwnaethom fynd ati i sicrhau bod cynifer o weithwyr llawrydd â phosibl yn ymwybodol o'r cymorth ac yn gallu cael budd o'r grant hwn. Er gwaethaf y mesurau a gyflwynwyd gennym i sicrhau dull cynhwysol wrth ddosbarthu cyllid, rydym yn ymwybodol bod rhai o'r unigolion hynny nad oeddent yn gymwys i gael cymorth yn teimlo'n rhwystredig.

Fel y nodwyd gennych yn eich llythyr, roedd Llywodraeth Cymru bob amser yn ymwybodol bod y galw yn debygol o fod yn uwch na'r cyllid a oedd ar gael, ond bu graddau eithriadol y galw mewn rhai ardaloedd o Gymru yn ddigynsail. Er mwyn cydnabod lefelau sylweddol y galw am y cymorth hwn, rydym yn ymrwymo £3.5 miliwn ychwanegol i'r gronfa gweithwyr

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

llawrydd, sy'n golygu y bydd cyfanswm o £10.5 miliwn wedi'i dargedu at weithwyr llawrydd. Caiff cam nesaf y cyllid ei lansio am 10am ddydd Llun 23 Tachwedd. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar hyn o bryd i gytuno ar ddull teg o ddyrannu'r swm ychwanegol hwn ac i sicrhau y caiff cam tri gyhoeddusrwydd mor eang â phosibl.

Nodir isod ein hymatebion i'r cwestiynau ychwanegol a godwyd yn eich llythyr.

*A yw eich adran wedi rhoi canllawiau i awdurdodau lleol (sy'n dosbarthu cyllid y cynllun hwn) i adlewyrchu'r pryderon a godwyd ar ôl y cylch cyllido cyntaf?*

Mae Cymru Greadigol wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol drwy gydol y cyfnod, er mwyn dylunio'r broses, cytuno ar ddogfennaeth wedi'i safoni a nodi dull cyson o arfarnu'r ceisiadau a ddaw i law. Lluniwyd canllawiau ar gyfer y gronfa a chyfres o gwestiynau cyffredin ar y cyd ag awdurdodau lleol, ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru cyn lansio'r gronfa.

Mae swyddogion o asiantaeth Cymru Greadigol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â chynrychiolwyr o'r 22 o awdurdodau lleol er mwyn rhannu gwybodaeth, rhoi adborth gan randdeiliaid ehangach a chytuno ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r gronfa.

Bydd y fath ymgysylltu yn parhau yn ystod y trydydd cam cyllido, ac mae trafodaethau eisoes yn mynd rhagddynt ag awdurdodau lleol, undebau creadigol a chynrychiolwyr o Dasglu Gweithwyr Llawrydd Cymru i ystyried sut y gweithredwyd y gronfa hyd yn hyn ac i nodi meysydd i'w gwella.

*Pa gamau a gymerwyd i wella dosbarthiad teg yr ail rownd o gyllid cynllun Grant Gweithwyr Llawrydd y Gronfa Adferiad Diwylliannol?*

Trafodwyd y fethodoleg ar gyfer dyrannu'r £7 miliwn â rhanddeiliaid cyn ei lansio, a chytunwyd y câi hanner cyntaf y cyllid ei ddyrannu'n gyfartal, gyda'r ail hanner yn cael ei ddosrannu i ardaloedd awdurdodau lleol yn seiliedig ar y data sydd ar gael ar nifer y bobl hunangyflogedig ym mhob ardal. Mae hyn yn gydnaws â'r ffordd y dyrannwyd cyllid drwy'r Cynllun Grant Dechrau Busnes a lansiwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru a lwyddodd i sicrhau mwy o gyllid i awdurdodau lleol fel Caerdydd, y mae mwy o bobl hunangyflogedig yn byw yn eu hardal. Mewn ymateb i'r galw sylweddol am gyllid yng Nghaerdydd a nodwyd yn ystod y cam cyntaf, gwnaethom hefyd ailddyrannu cyllid o'r awdurdodau lleol lle y cafwyd llai o alw yn ystod y cam hwnnw, gan alluogi 150 o weithwyr llawrydd ychwanegol yng Nghaerdydd i gael grant yn ystod yr ail gam, yn ychwanegol at y dyraniad y cytunwyd arno ar gyfer yr ail gam.

Gweithredwyd y gronfa fesul cam, ar gais rhanddeiliaid, er mwyn helpu i liniaru problemau hygyrchedd ac er mwyn rhoi mwy o amser i weithwyr llawrydd baratoi i wneud cais. Gwnaethom gyflwyno mesurau er mwyn helpu'r rheini a oedd yn wynebu problemau o ran hygyrchedd i wneud cais am gyllid, ac yn dilyn adborth o'r cam cyntaf, atgyfnerthwyd y mesurau hyn er mwyn paratoi ar gyfer yr ail gam. Roedd hyn yn cynnwys pwynt cyswllt drwy e-bost a thros y ffôn i'r rheini a oedd yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i'r rhyngrwyd neu gwblhau'r cais. Mae'r ffurflen gais a'r canllawiau ar gael ar ffurf hawdd i'w deall.

Gwnaethom hyrwyddo'r gronfa yn eang cyn ei lansio, gan gynnwys ar wefan Llywodraeth Cymru a gwefan Busnes Cymru a sianelau cyfathrebu, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy ofyn i'n rhanddeiliaid, gan gynnwys undebau, godi ymwybyddiaeth, er enghraifft, ymhlith eu haelodau. Unwaith eto, mewn ymateb i bryderon na chafodd yr amser lansio ei nodi'n ddigon clir yn ein gohebiaeth ar gyfer y cam cyntaf, gwnaethom sicrhau bod dyddiad ac amser lansio'r ail gam yn glir ym mhob neges. Pwysleisiodd ein gohebiaeth mewn perthynas â'r gronfa mai dim ond y rheini yr oedd angen cymorth arnynt fwyaf ddylai wneud cais am gyllid.

*Sut yr asesir angen yr ymgeiswyr yn y broses o wneud cais? A yw hyn wedi gwella yn yr ail rownd ddosbarthu?*

Dyluniwyd y broses gwneud cais ar gyfer y gronfa i sicrhau ei bod mor glir ac mor syml â phosibl er mwyn lleihau'r baich ar ymgeiswyr. Wrth ddatblygu'r gronfa, tynnodd rhanddeiliaid, gan gynnwys y gymuned gweithwyr llawrydd, sylw at yr heriau y mae gweithwyr llawrydd yn eu hwynebu wrth ddarparu tystiolaeth eu bod wedi colli enillion. O ganlyniad, nid yw'r broses yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth fanwl na phrawf eu bod wedi colli gwaith hyd at lefel benodol. Felly, ni fu'n bosibl i awdurdodau lleol flaenoriaethu ceisiadau yn seiliedig ar anghenion. Gan mai swm cyfyngedig o gyllid sydd ar gael, bu'n rhaid gweithredu ar sail y cyntaf i'r felin, ac o ganlyniad, y rheini a ymatebodd gyflymaf i'r cais am geisiadau a gafodd gymorth.

Ystyriwyd lefel anghenion drwy sicrhau bod y gronfa yn targedu gweithwyr llawrydd na chynigiwyd y Grant Dechrau Busnes a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin iddynt, a'r rheini nad ydynt yn gweithio mewn rolau na fu fawr ddim effaith arnynt, os o gwbl.

Gobeithio y bydd y wybodaeth ychwanegol hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**



Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg

24 Tachwedd 2020

Annwyl Kirsty,

**Materion yn codi yn o gyfarfod y Pwyllgor gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 12 Tachwedd.**

Ar 12 Tachwedd cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru pan drafodwyd mater y cwricwlwm newydd i Gymru. Mewn ymateb i gwestiwn gan Mick Antoniw AS, dywedodd Pedr ap Llwyd, y Llyfrgellydd Cenedlaethol:

> "We believe the national library, with its collections, has a huge contribution to make to teaching and to the national curriculum in Wales, and I believe the reviewers make that point pretty strongly. There has been no connection at all, no communication at all, between the library and education officials in Welsh Government. As you know too well, we work within the culture section, and we would really, really welcome a discussion to amplify to the education Minister the contribution the national library could make to assist the delivery of bilingual material that would assist teachers, pupils and institutions hugely."[1]

Mae gan y Llyfrgell Genedlaethol adnoddau sylweddol a allai gefnogi nodau ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran datblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru. Fel Pwyllgor, gallwn weld buddion clir posibl ar gyfer cydweithredu ac ymgysylltu pellach rhwng y ddau sefydliad yn y maes hwn.

Yng ngoleuni'r uchod, byddwn yn ddiolchgar o gael eich barn ar ba ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i wneud y defnydd gorau o asedau'r Llyfrgell Genedlaethol wrth ddatblygu'r cwricwlwm. Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech drefnu cyfarfod rhwng Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol i ymgysylltu ymhellach ar y pwnc hwn, a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor pan fydd y cyfarfod hwn wedi ei gynnal.

---

[1] Cofnod y Trafodion, paragraffau 70 a 71 – 12 Tachwedd 2020

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth; at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; ac at Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yn gywir,



**Helen Mary Jones**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

18 Rhagfyr 2020

Annwyl Helen Mary,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Tachwedd ynghylch materion yn codi o gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu â Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yn dilyn cyhoeddi drafft Cwricwlwm i Gymru yn 2019, roeddem yn ddiolchgar iawn o gael mewnbwn a chyfranogiad gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod y cyfnod adborth, gyda'i chynrychiolwyr yn mynychu digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid allweddol.

Nodir ein dull o gefnogi'r cwricwlwm newydd yn Cenhadaeth ein Cenedl, ein strategaeth i wella'r system ysgolion, a chyhoeddwyd diweddariad ym mis Hydref sydd ar gael ar:

https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl

Yn ogystal, yn Y daith i 2022, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu adnoddau dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm newydd drwy 2021 a 2022. Mae hyn ar gael gyda'r Cwricwlwm i Gymru ar:

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-i-gymru-y-daith-i-2022-2/

Bydd angen i ni weithio'n agos gydag amrywiaeth o sefydliadau a fydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod adnoddau addas ar gael. Mae gan sefydliadau fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru rôl bwysig o ran cefnogi ysgolion ac mae cyfle ar gyfer cydweithio go iawn. Felly, rwy'n croesawu'n fawr y cyfle i'm swyddogion drafod gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru sut y gellir defnyddio ei hadnoddau unigryw i gefnogi ysgolion a lleoliadau wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gysylltu â Llyfrgell Genedlaethol Cymru i hwyluso hyn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

LEAVE BLANK TO ALLOW FOR PRINTING

Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Yr Arglwydd Elis-Thomas AS

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

24 Tachwedd 2020

Annwyl Dafydd,

**Materion yn codi o gyfarfod y Pwyllgor â Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Diolch i chi am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 12 Tachwedd i drafod yr Adolygiad Teilwredig o Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yn dilyn y sesiwn, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu atoch i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffurfiol i'r Adolygiad Teilwredig, gan y byddai hyn o gymorth i'r Pwyllgor wrth gynllunio ei gamau nesaf. At hynny, byddai'n ddefnyddiol pe bai ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Teilwredig yn cyd-fynd â Datganiad Llafar yn y Senedd.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg, ynghylch ymwneud y Llyfrgell Genedlaethol yn natblygiad y cwricwlwm newydd i Gymru, yr wyf wedi'i gopïo i'ch swyddfa er gwybodaeth.

Yn gywir,

**Helen Mary Jones**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DET/438/20

Helen Mary Jones AS/MS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

21 Rhagfyr 2020

Annwyl Helen Mary

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 24 Tachwedd yn dilyn fy sesiwn dystiolaeth ddiweddar ar yr Adolygiad Teilwredig o Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn trafod ar hyn o bryd y cynllun gweithredu i ymateb i'r adolygiad gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a chyda fy swyddogion yn y tîm noddi yn Llywodraeth Cymru. Bydd cynllun gweithredu yn barod yn y flwyddyn newydd a byddaf yn ei rannu â'r Pwyllgor cyn gynted ag y bydd ar gael.

Bydd yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn darparu cyngor ar gamau olaf cau'r broses o gynnal Adolygiad Teilwredig yn y man, gan gynnwys cyngor ar a oes angen i hynny gynnwys datganiad.

Yn gywir

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Jane Hutt AS

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

24 Tachwedd 2020

Annwyl Jane

**Penodiadau i Fwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Ar 12 Tachwedd cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru pan drafodwyd penodiadau cyhoeddus i Fwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell Genedlaethol.

Gan fod penodiadau cyhoeddus yn dod o dan eich portffolio chi o gyfrifoldebau, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod y gronfa orau bosibl o ymgeiswyr yn cael eu hystyried ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn y Llyfrgell Genedlaethol - gan gynnwys sicrhau gwell ehangder ac amrywiaeth o ran sgiliau, doniau, a phrofiad o ran ymgeiswyr a'r rhai a benodir. Yn yr un modd, hoffem ofyn pa asesiad a wnaed o briodoldeb y tâl ar gyfer y Cadeirydd Gweithredol, ac aelodau Bwrdd y Llyfrgell Genedlaethol - gan gynnwys manylion am sut mae'n cymharu â rolau a phenodiadau tebyg ar draws y sector cyhoeddus.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Dafydd Elis-Thomas AS, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Yn gywir,



**Helen Mary Jones**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDGCh@senedd.cymru

17 Rhagfyr 2020

Annwyl Helen Mary,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Tachwedd ynghylch penodiadau i Fwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n recriwtio Ymddiriedolwyr i Fwrdd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Fel rhan o'r broses hon, rydym wedi gweithio'n agos â'r Llyfrgell i ddatblygu'r pecyn recriwtio a'r deunydd hysbysebu. Mae'r meini prawf yn pwysleisio'n benodol yr angen am ddealltwriaeth ac ymroddiad i amrywiaeth a chynhwysiant a chafodd rolau'r Ymddiriedolwyr eu hysbysebu'n eang ar draws ystod o gyfryngau, gan gynnwys, ar lwyfannau digidol Cymraeg. Cafodd y swyddi gwag eu rhannu â rhanddeiliaid o'r grwpiau amddiffyn, gan gynnwys yr unigolion yr ydym yn cyfathrebu â nhw fel rhan o waith gweithredu'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Byddwn yn gwerthuso effaith ein gwaith maes a byddwn yn gwneud hyn ar ôl yr ymgyrch recriwtio hon.

O ran asesiad o briodoldeb cydnabyddiaeth ariannol i'r Cadeirydd Gweithredol ac Aelodau'r Bwrdd, byddwch yn ymwybodol bod rôl y Llywydd yn rôl â thâl. Fodd bynnag, nid yw pob rôl ar lefel Bwrdd yn rôl â thâl ac yn y maes Diwylliant, mae rolau Ymddiriedolwyr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru, yn wirfoddol eu natur.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gall rolau Ymddiriedolwyr sy’n rolau â thâl fod yn gymhleth, yn aml oherwydd bod corff hefyd yn elusen. Yn gyffredinol, ni all elusennau dalu eu Hymddiriedolwyr am fod yn Ymddiriedolwr yn unig. Mae rhai elusennau'n talu Ymddiriedolwyr, ond ni allant ond wneud hynny os yw’n cael ei ganiatáu gan eu dogfen lywodraethol, gan y Comisiwn Elusennau neu gan y llysoedd.

Er mwyn cynnal cysondeb a thryloywder, mae Llywodraeth Cymru yn dilyn canllawiau penodol wrth gynnig tâl ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Yn gyffredinol, mae pum lefel wahanol o gydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar asesiad o faint, cymhlethdod ac amlygiad y corff i risg. Mae'r canllawiau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae rhan o'r gwaith hwn wedi ystyried y dull a fabwysiadwyd ar draws rhannau eraill o'r DU ac wedi nodi trefniadau tebyg heb dâl ar gyfer Ymddiriedolwyr yn y sector Diwylliant.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip